Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Prosiectau Gwella Cydweithredol QAA Cymru 2023-24,
a ariennir gan CCAUC

# Beth yw'r priodoleddau allweddol sydd gan raddedigion yng Nghymru a sut allwn ni feithrin datblygiad y priodoleddau hyn?

Yr adroddiad terfynol
Awst 2024

## Y tîm ymchwil

Prifysgol Bangor
Yr Athro Fay Short, Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol Cyflogadwyedd, f.short@bangor.ac.uk
Wajiha Sabir, Intern Ymchwil, wjs23kqt@bangor.ac.uk
Sarah Copping, Intern Ymchwil, src20vsj@bangor.ac.uk

Prifysgol Aberystwyth
Bev Herring, Pennaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, bch@aber.ac

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Hazel Israel, Darlithydd mewn Entrepreneuriaeth a Mentergarwch, h.israel@uwtsd.ac.uk

Prifysgol Wrecsam
Lucy Jones, Pennaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, Lucy.jones@wrexham.ac.uk

Coleg Sir Benfro
Hayley Williams, Rheolwr Datblygu Cwricwlwm, h.williams@pembrokeshire.ac.uk

**Cynnwys**


Crynodeb gweithredol ..... 1

Cefndir a nodau'r gwaith ymchwil ..... 3

Cam 1: Yr holiaduron i fyfyrwyr a chyflogwyr ..... 5

Yr holiadur i gyflogwyr ..... 9

Yr holiadur i fyfyrwyr ..... 16

Cymharu ymatebion y cyflogwyr a'r myfyrwyr ..... 24

Cam 2: Grwpiau ffocws gyda myfyrwyr, staff gwasanaethau proffesiynol a staff academaidd ..... 29

Grwpiau ffocws gyda staff academaidd ..... 30

Grwpiau ffocws gyda staff gwasanaethau proffesiynol ..... 34

Grwpiau ffocws gyda myfyrwyr ..... 37

Cam 3: Digwyddiad lledaenu ..... 41

Casgliad ..... 43

Cyfeiriadau ..... 46

Atodiadau ..... 47

Atodiad 1: Dadansoddiad cyfundrefnol o ddata'r holiadur cyflogwyr ..... 48

Atodiad 2: Priodoleddau graddedigion (cyflogwyr) ..... 49

Atodiad 3: Sgiliau (cyflogwyr) ..... 50

Atodiad 4: Dadansoddiad demograffig o ddata'r holiadur myfyrwyr ..... 54

Atodiad 5: Lefelau academaidd, meysydd astudio a dyheadau gyrfaol yn nata'r holiadur myfyrwyr ..... 56

Atodiad 6: Priodoleddau graddedigion (myfyrwyr) ..... 58

Atodiad 7: Sgiliau (myfyrwyr) ..... 59

Atodiad 8: Priodoleddau graddedigion (cyflogwyr o'u cymharu â myfyrwyr) ..... 63

Atodiad 9: Sgiliau (cyflogwyr o'u cymharu â myfyrwyr) ..... 64

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau prosiect cynhwysfawr oedd â'r nod o wella cyflogadwyedd graddedigion yng Nghymru drwy nabod a datblygu'r priodoleddau graddedigion y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi fwyaf. Gweithredwyd y prosiect mewn ymateb i bryderon cynyddol am y diffyg cyfatebiaeth rhwng y sgiliau a'r priodoleddau a ddysgir gan fyfyrwyr yn ystod eu cyrsiau prifysgol a gofynion y gweithle modern.

### Cefndir ac amcanion y prosiect

Lluniwyd yr astudiaeth fel Prosiect Gwella Cydweithredol oedd yn cynnwys nifer o sefydliadau: Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Coleg Sir Benfro, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a Phrifysgol Wrecsam. Roedd yn canolbwyntio'n bennaf ar nabod y priodoleddau allweddol sy'n hynod i raddedigion mewn marchnadoedd cenedlaethol a byd-eang fel ei gilydd. Nod y prosiect oedd cynhyrchu cyfres o argymhellion ar gyfer gweithgareddau academaidd a allai ddatblygu'r priodoleddau hyn, gan sicrhau bod graddedigion wedi eu paratoi'n dda ar gyfer y gweithlu.

### Methodoleg

Roedd y prosiect wedi ei strwythuro'n dri cham allweddol:

1. **Holiaduron myfyrwyr a chyflogwyr:** Gwnaethpwyd arolygon gyda chyflogwyr (67 o ymatebwyr) a myfyrwyr (434 o ymatebwyr) i asesu pa mor bwysig yr ystyrir yr amrywiol priodoleddau a sgiliau mewn graddedigion, ac i ba raddau y mae'r rhain yn cael eu datblygu drwy gyrsiau prifysgol.
2. **Grwpiau ffocws:** Roedd trafodaethau gyda staff academaidd (pedwar grŵp), staff gwasanaethau proffesiynol (tri grŵp), a myfyrwyr (dau grŵp) yn archwilio'r dulliau a ddefnyddir i addysgu priodoleddau graddedigion ac yn nodi gwelliannau posibl.
3. **Digwyddiad lledaenu:** Rhannwyd y canfyddiadau gyda rhanddeiliaid o sefydliadau oedd yn cymryd rhan i drafod y camau nesaf ac i sicrhau bod y prosiect yn effeithiol.

### Y canfyddiadau allweddol

Dangosodd yr astudiaeth wahaniaethau sylweddol rhwng y sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi a'r rhai y mae myfyrwyr yn credu eu bod yn eu dysgu. Roedd y cyflogwyr yn blaenoriaethu priodoleddau ymarferol megis 'cymhwyso', 'cydweithio' a 'gweithio'n annibynnol', ond roedd y myfyrwyr yn rhoi mwy o bwyslais ar fynegiant personol a bod yn gynhwysol. Mae'r diffyg cyfatebiaeth hwn yn awgrymu bod bwlch yn bodoli rhwng paratoad academaidd a disgwyliadau yn y gweithle.

Yn ogystal, roedd y cyflogwyr yn dweud yn gyson bod sgiliau megis 'datrys problemau', 'gallu addasu' a 'pharodrwydd i ddysgu' yn rhai hanfodol, ac eto roeddent yn teimlo nad oedd y sgiliau hyn wedi eu datblygu'n ddigonol mewn graddedigion. Ar y llaw arall, roedd y myfyrwyr yn credu bod eu cyrsiau'n eu paratoi nhw'n ddigonol yn y meysydd hyn, sy'n arwydd efallai eu bod nhw'n meddwl eu bod yn llawer mwy parod nag ydyn nhw mewn gwirionedd. Yn gyffredinol, roedd y myfyrwyr yn rhoi graddau uwch i'w sgiliau na'r cyflogwyr o ran pa mor bwysig yw'r sgiliau a faint maen nhw'n cael eu hyfforddi ar eu cyrsiau.

Tynnodd grwpiau ffocws sylw at yr heriau y mae staff academaidd yn eu hwynebu wrth geisio ymwreiddio'r priodoleddau hyn yn y cwricwla, yn enwedig oherwydd prinder adnoddau a'r lefelau amrywiol o ymgysylltiad myfyrwyr. Pwysleisiwyd pwysigrwydd profiad ymarferol,

fel interniaethau a lleoliadau gwaith, ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid fel rhai hanfodol ar gyfer datblygu sgiliau cyflogadwyedd allweddol.

**Yr argymhellion**

I fynd i'r afael â'r heriau hyn a chyfateb deilliannau addysg yn well â disgwyliadau cyflogwyr, mae'r adroddiad yn argymell cymryd y camau gweithredu a ganlyn:

- **Integreiddio profiadau ymarferol:** Dylid ymwreiddio interniaethau, lleoliadau gwaith, a dysgu ar sail prosiectau ym mhob rhaglen academaidd i sicrhau bod y myfyrwyr yn gallu cymhwyso gwybodaeth ddamcaniaethol mewn lleoliadau gwaith go iawn.
- **Gwella cydweithrediad:** Dylid cryfhau'r partneriaethau rhwng adrannau academaidd a gwasanaethau proffesiynol er mwyn atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd yn gyson drwy gydol taith astudio'r myfyriwr.
- **Canolbwyntio ar 'wytnwch', 'gallu addasu' a 'meddylfryd twf':** Dylai prifysgolion gynnwys hyfforddiant gwytnwch yn eu cwricwla a rhoi cyfleoedd i'w myfyrwyr fyfyrio ar anawsterau a dysgu ganddynt.
- **Gwella'r mynediad at wasanaethau cymorth:** Dylid buddsoddi mewn systemau cymorth hygyrch ac effeithiol i helpu'r myfyrwyr i oresgyn rhwystrau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, cyfyngiadau ariannol, a gorbryder cymdeithasol. Sicrhau bod hyn wedi ei gydbwyso â darparu lle diogel a chyfle i fyfyrwyr brofi heriau, anawsterau, methiant, ac felly wella gwytnwch.
- **Cyfateb terminoleg academaidd â therminoleg ddiwydiannol:** Sicrhau bod y geiriad a'r sgiliau sydd wedi eu pwysleisio mewn lleoliadau academaidd yn cyfateb â'r rhai sy'n ofynnol yn y gweithle. Hyfforddi myfyrwyr i ddefnyddio iaith benodol i sector wrth ddisgrifio eu sgiliau a'u priodoleddau eu hunain.

**Casgliad**

Mae'r prosiect hwn yn tanlinellu'r angen i sefydliadau addysg uwch fireinio eu dulliau o ddatblygu priodoleddau graddedigion. Trwy weithredu'r strategaethau a argymhellwyd, gall prifysgolion sicrhau bod gwell gallu gan eu graddedigion i ateb gofynion y gweithle, a fydd felly'n eu gwneud nhw'n fwy cyflogadwy ac yn golygu eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r economi.

## Cefndir a nodau'r gwaith ymchwil

Mae priodoleddau graddedigion yn cyfeirio at y sgiliau, y wybodaeth a'r galluoedd y mae disgwyl i raddedigion prifysgol feddu arnynt, gan ymestyn y tu hwnt i'w gwybodaeth ddisgyblaethol i gwmpasu galluoedd ehangach sy'n berthnasol ar draws amrywiol gyd-destunau proffesiynol (Wald a Harland, 2019). Yn aml iawn, mae'r priodoleddau hyn wedi eu cysylltu â chyflogadwyedd, gan adlewyrchu'r disgwyliadau y bydd gan raddedigion y sgiliau cywir i ateb gofynion gweithleoedd modern (Barrie, 2004).

Mae ymchwil i briodoleddau graddedigion wedi tyfu dros y ddau ddegawd diwethaf, yn arbennig mewn ymateb i'r cynnydd mewn pryderon ynglŷn â chyflogadwyedd graddedigion. Tynnodd astudiaethau cynnar sylw at fylchau sylweddol rhwng y sgiliau sydd gan raddedigion a'r sgiliau hynny y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi, megis 'cyfathrebu', 'gweithio mewn tîm' a 'datrys problemau' (Kemp a Seagraves, 1995). Sbardunodd y canfyddiadau hyn ddatblygiad fframweithiau priodoleddau graddedigion ar draws nifer o brifysgolion, yn arbennig yn y DU, Awstralia a Seland Newydd (Wong et al., 2021), lle mae'r pwyslais ar gyflogadwyedd wedi dod yn thema ganolog mewn polisi addysg uwch (Barrie, 2004).

Yn y DU, mae fframweithiau priodoleddau graddedigion wedi eu gweithredu'n eang erbyn hyn, gyda phrifysgolion yn nodi'r priodoleddau penodol y dylai eu graddedigion eu dangos (Wald a Harland, 2019; Wong et al., 2021). Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi cael eu mabwysiadu eang, mae'r fframweithiau hyn wedi cael eu beirniadu am nad ydynt wedi eu seilio mewn damcaniaethau ac oherwydd yr heriau sy'n gysylltiedig â'u gweithrediad. Mae Wald a Harland (2019) yn dadlau bod fframweithiau priodoleddau graddedigion wedi eu gwreiddio'n aml mewn ideolegau neoryddfrydol, sy'n blaenoriaethu canlyniadau economaidd dros werthoedd addysgol, gan arwain at ffocws cul ar gyflogadwyedd ar draul amcanion addysgol ehangach. Mae'r feirniadaeth hon yn tynnu sylw at y tensiwn rhwng galwadau rheoliadol sefydliadau addysg uwch a'r rhyddid academaidd sy'n angenrheidiol i ddatblygu cwricwla ystyrlon.

Ymhellach, er bod fframweithiau priodoleddau graddedigion yn strwythur defnyddiol ar gyfer llunio cwricwla, mae gwaith ymchwil diweddar yn awgrymu eu bod nhw'n aml iawn yn methu dangos cymhlethdodau'r ffordd y mae'r priodoleddau hyn yn cael eu datblygu a'u dangos gan fyfyrwyr. Mae staff academaidd yn sôn am anawsterau gyda chanfod yr amser, yr adnoddau a'r hyder i ymwreiddio hyfforddiant priodoleddau graddedigion i mewn i'w cwricwla sy'n berthnasol i feysydd astudio penodol (Oliver, 2013). O ganlyniad, mae cyflogwyr yn dweud yn aml nad oes digon o briodoleddau hanfodol gan raddedigion, megis gwytnwch, ymwybyddiaeth o faterion masnachol, a'r gallu i arwain, er gwaethaf ymdrechion prifysgolion i ymwreiddio'r sgiliau hyn yn eu cwricwla (Cyngor ac Arweiniad AGCAS Cymru, 2024). Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu nad yw'r dulliau cyfredol o addysgu ac asesu priodoleddau graddedigion yn paratoi myfyrwyr yn ddigonol o bosib ar gyfer realiti'r gweithle.

Er gwaethaf ymchwil estynedig am briodoleddau graddedigion a'u gweithrediad, mae bylchau nodedig yn y llenyddiaeth sy'n golygu bod rheswm da dros wneud rhagor o archwilio. Un bwlch sylweddol yw'r ddealltwriaeth gyfyngedig o'r ffordd y mae amrywiol randdeiliaid – myfyrwyr, cyflogwyr staff academaidd a staff gwasanaethau proffesiynol – yn ystyried pwysigrwydd ac effeithiolrwydd priodoleddau graddedigion. Mae'r rhan fwyaf o'r astudiaethau wedi canolbwyntio naill ai ar ddisgwyliadau'r cyflogwyr neu ar ddeilliannau dysgu'r myfyrwyr, heb roi fawr ddim sylw i safbwyntiau staff academaidd a staff gwasanaethau proffesiynol sy'n gwneud rolau hanfodol yn y gwaith o lunio cwricwla a chefnogi myfyrwyr.

Ymhellach, mae angen gwneud gwaith ymchwil mwy cynhwysfawr sy'n archwilio cyd-destun penodol y DU, lle gallai polisïau addysg uwch a gofynion y farchnad lafur fod yn wahanol i'r rhai

mewn gwledydd eraill. Er bod rhai astudiaethau wedi archwilio priodoleddau graddedigion yn y DU, yn aml iawn dydyn nhw ddim yn ystyried amrywiadau rhanbarthol neu'r heriau penodol a wynebir gan brifysgolion mewn gwahanol rannau o'r DU, fel y rhai sy'n benodol i Gymru. Yn ogystal, mae ymchwil sy'n bodoli'n barod yn tueddu i ganolbwyntio ar boblogaethau arwahanol – fel myfyrwyr, staff gwasanaethau gyrfaoedd, academyddion neu gyflogwyr – gan fethu cyfuno canfyddiadau i ddatblygu dealltwriaeth gydlynus a chynhwysfawr.

Mae'r tirlun cyfredol o ymchwil i briodoleddau graddedigion yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sgiliau hyn ar gyfer cyflogadwyedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â'u hymwreiddio nhw mewn cwricwla addysg uwch. Fodd bynnag, mae bylchau'n parhau yn y ddealltwriaeth o ganfyddiadau amrywiol randdeiliaid a chyd-destun penodol y DU. Mae'n hanfodol bwysig mynd i'r afael â'r bylchau hyn er mwyn datblygu strategaethau mwy effeithiol ar gyfer addysgu ac asesu priodoleddau graddedigion, gan sicrhau yn y pen draw bod graddedigion wedi eu paratoi'n well ar gyfer gofynion y gweithlu.

Y dyhead gyda'r prosiect gwella cydweithredol hwn yw mynd i'r afael â'r pethau sy'n herio cyflogadwyedd graddedigion yng Nghymru. Mae'r prosiect yn canolbwyntio'n bennaf ar nabod, deall a datblygu priodoleddau graddedigion y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi. Ein nod yw penderfynu beth yw'r priodoleddau allweddol sydd gan raddedigion yng Nghymru sy'n gwneud iddyn nhw sefyll allan mewn marchnadoedd cenedlaethol a byd-eang fel ei gilydd. Ar ôl nodi'r priodoleddau hyn, byddwn yn llunio cyfres o argymhellion am weithgareddau academaidd a fydd wedi eu llunio i ddatblygu a gwella'r priodoleddau hyn.

Mae priodoleddau graddedigion yn cyfeirio at y nodweddion a'r sgiliau lefel uchel y mae myfyrwyr yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol. Mae gan bob sefydliad oedd yn cymryd rhan eu cyfresi eu hunain o briodoleddau neu sgiliau graddedigion; fodd bynnag, ychydig iawn o rannu arferion sy'n digwydd ar draws sefydliadau i fapio'r priodoleddau hyn yn erbyn anghenion cyflogwyr, ymwybyddiaeth myfyrwyr a gweithgareddau academaidd. Rydym yn amcanu i gyfuno'r priodoleddau amrywiol hyn a'u defnyddio fel fframwaith i ateb y tri chwestiwn sylfaenol a ganlyn:

1. Beth yw'r priodoleddau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi fwyaf mewn graddedigion?
2. A yw myfyrwyr yn deall pwysigrwydd y priodoleddau hyn?
3. Sut all gweithgareddau academaidd ddatblygu'n effeithiol y priodoleddau hynny sydd fwyaf gwerthfawr yn broffesiynol?

Roedd y prosiect hwn yn cynnwys proses dri cham gynhwysfawr, ac yn sicrhau cyfraniad gan nifer o sefydliadau a rhanddeiliaid i wneud yn siŵr bod eu dull yn gyfannol ac effeithiol. Y cam cyntaf oedd cynnal arolwg gyda chyflogwyr a myfyrwyr er mwyn mesur faint o bwysigrwydd yr oeddent yn ei roi i briodoleddau a sgiliau graddedigion yn eu sectorau gyrfaol perthnasol, ac i ba raddau y mae'r sgiliau hyn wedi eu datblygu mewn graddedigion. Yr ail gam oedd grwpiau ffocws gyda staff academaidd, staff gwasanaethau proffesiynol a myfyrwyr i archwilio sut y dysgir priodoleddau graddedigion a nodi dulliau o ymwreiddio sgiliau gwerthfawr yn y cwricwlwm yn fwy llwyddiannus. Y trydydd cam, sef yr olaf, oedd digwyddiad lledaenu oedd yn dod â staff allweddol y sefydliadau oedd yn cymryd rhan at ei gilydd i rannu canfyddiadau'r ddau gam cyntaf a thrafod y camau nesaf.

Trwy'r broses dri cham hon, rydym yn amcannu i gyfateb paratoad academaidd â gofynion y gweithle. Mae'r canlyniadau a ragwelir yn addo mireinio'r cwricwlwm, gwneud myfyrwyr yn fwy ymwybodol, a gwella cydweithio ymysg sefydliadau. Gallai'r prosiect hwn gael effaith gadarnhaol ar y sector addysg uwch, gan feithrin cydweithio a rhannu gwybodaeth parhaus.

## Cam 1: Yr holiaduron i fyfyrwyr a chyflogwyr

Dechreuodd y prosiect gyda dosbarthu arolwg estynedig i gyflogwyr a myfyrwyr oedd yn gysylltiedig â'r athrofeydd oedd yn cydweithio. Wrth ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, sicrhawyd bod yr holl ddeunyddiau, arolygon, a chyfathrebiadau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Roedd y dull hwn yn cyfateb â'n hymrwymiad i fod yn gynhwysol a hygyrch yng nghyd-destun y sector addysg uwch yng Nghymru. Roedd y cyfranogwyr i gyd dros 18 oed, heb unrhyw feini prawf eithrio yn ymwneud â rhyw, rhywedd, ethnigrwydd, neu genedligrwydd. Darparodd y cyfranogwyr fanylion am eu rhyw, rhywedd, oed, cenedligrwydd, ethnigrwydd, rhaglen astudio, a/neu eu safle o fewn eu cwmnïau perthnasol er mwyn darganfod unrhyw dueddiadau a chanfod patrymau yn y data. Glynodd y cwestiynau am ddata demograffig at ganllawiau Advance HE ynglŷn â chasglu data i fonitro amrywiaeth.

Cyn creu'r holiaduron, gwnaethpwyd arolwg cwmpasu i dynnu at ei gilydd ddeilliannau dysgu'r graddedigion oedd wedi eu marchnata i fyfyrwyr gan bob un o'r athrofeydd oedd yn cydweithio. Nid yw un o'r athrofeydd yn defnyddio'r term 'priodoleddau graddedigion' ar hyn o bryd, ond mae ganddi restr o sgiliau y dylai'r graddedigion i gyd eu cyflawni felly defnyddiwyd honno. Roedd y mapio'n galluogi i'r priodoleddau a'r sgiliau gael eu cyfuno i greu un rhestr derfynol o ddeg priodoledd graddedigion a 37 o sgiliau.

Dyma oedd y rhestr derfynol o briodoleddau graddedigion a ddefnyddiwyd yn yr holiaduron:

1. Dyfeisgarwch: Wedi eu grymuso i feddwl y tu allan i'r bocs a datrys problemau byd-eang.
2. Ysbrydoli: Yn gallu defnyddio'r holl gyfleoedd i ddatgloi potensial yn y dyfodol.
3. Hunan-gyfarwyddo: Y gallu i reoli eich gwaith eich hun yn effeithiol, pennu tasgau, ac asesu anghenion datblygiadol.
4. Bod yn unigryw: Yn gallu creu eich llwybrau gyrfaol eich hun a'ch cyfraniadau i'r byd.
5. Cymhwyso: Bod yn hyfedr mewn cymhwyso sgiliau a gwybodaeth mewn amrywiol gyd-destunau, gydag esiamplau yn y byd go iawn.
6. Ymholi: Chwilfrydedd, bod yn agored i archwilio syniadau, y gallu i rannu sylwadau wedi eu seilio ar dystiolaeth, ac ymwybyddiaeth o ddatblygiadau a heriau yn eich maes eich hun.
7. Herio: Gwytnwch mewn wynebu heriau, eu gweld nhw fel cyfleoedd ar gyfer dysgu a thwf, a herio disgwyliadau pan fo'n angenrheidiol.
8. Bod yn gynhwysol: Bod yn groesawgar ym mhopeth a wnewch a gyda phawb sy'n croesi eich llwybr.
9. Gweithio'n annibynnol: Dinasyddion gwybodus a hyderus sy'n gallu gweithio'n annibynnol.
10. Cydweithio: Sgiliau mewn gweithio'n effeithiol gyda phobl eraill, ffurfio cysylltiadau cadarnhaol, a chyflawni canlyniadau fel tîm.

Dyma oedd y rhestr derfynol o sgiliau a ddefnyddiwyd yn yr holiadur:

1. Hyblygrwydd a'r gallu i addasu
2. Chwilfrydedd
3. Datrys problemau
4. Meddwl creadigol
5. Meddwl arloesol
6. Meddwl beirniadol
7. Cyfathrebu geiriol
8. Adeiladu cydberthynas

9. Gweithio mewn tîm
10. Cydweithio
11. Gweithio'n annibynnol
12. Gallu arwain
13. Rheoli heriau
14. Rheoli anawsterau a methiant
15. Parodrwydd i ddysgu
16. Rheoli gwrthdaro
17. Rhwydweithio
18. Deallusrwydd emosiynol
19. Gwytnwch
20. Ymrwymiad
21. Hunan-hyder a hunan-barch
22. Uchelgais
23. Hunanystyriaeth a hunanymwybyddiaeth feirniadol
24. Bod yn drefnus
25. Cwblhau gwaith erbyn dyddiad penodol
26. Prydlondeb a phresenoldeb
27. Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
28. Ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd
29. Ymwybyddiaeth o foeseg ac ymrwymiad iddi
30. Sgiliau cyflwyno
31. Sgiliau rhifedd
32. Rheoli prosiectau
33. Ysgrifennu adroddiadau
34. Defnyddio technegau amlgyfrwng
35. Sgiliau a llythrennedd technoleg ddigidol
36. Sgiliau ymchwilio
37. Gwybodaeth arbenigol mewn pwnc penodol

Cafodd yr **holiadur cyflogwyr** ei ddosbarthu drwy wasanaethau gyrfaoedd y sefydliadau oedd yn cydweithio. Ei ddiben oedd cael cyflogwyr i roi'r priodoleddau graddedigion sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn eu trefn restrol, er mwyn cael dealltwriaeth gynhwysfawr o ddisgwyliadau'r diwydiant. Trwy gydweithio â nifer o sefydliadau, sicrhawyd amrywiaeth o ran ymatebion, gan gofnodi amrediad eang o sylwadau gan y cyflogwyr. Dyma oedd y cwestiynau allweddol:

1. **Pa briodoleddau mewn graddedigion sy'n bwysig i'r gwaith yn eich maes chi?** Meddyliwch pa briodoleddau sydd eu hangen gan raddedigion er mwyn llwyddo yn eich sefydliad/cwmni/busnes chi. Ail-drefnwch y deg priodoledd a ganlyn i ddangos pa mor bwysig ydyn nhw i'r gwaith yn y maes hwn. Rhowch y priodoledd pwysicaf ar frig eich rhestr, a'r priodoledd lleiaf pwysig ar waelod eich rhestr.
2. **Yn eich barn chi, pa briodoleddau sydd gan raddedigion ar hyn o bryd?** Meddyliwch am eich profiad o raddedigion yn mynd i mewn i'ch sefydliad/cwmni/busnes. Ail-drefnwch y priodoleddau a ganlyn i ddangos pa rai sy'n ymddangos fel petaent yn bresennol mewn graddedigion heddiw. Rhowch y priodoledd yr ydych

wedi ei weld fwyaf ar frig eich rhestr, a'r priodoledd yr ydych wedi ei weld leiaf ar waelod eich rhestr.

3. **Beth yw'r sgiliau, y wybodaeth a'r galluoedd sy'n bwysig yn eich sefydliad/cwmni/busnes chi?** Nodwch isod ba mor bwysig yw'r gwahanol sgiliau, gwybodaeth a galluoedd hyn i'ch maes gwaith chi. Dewiswch un ateb o blith y canlynol: 'Eithriadol bwysig', 'Pwysig iawn', 'Eithaf pwysig', 'Ychydig bach yn bwysig' a 'Ddim yn bwysig o gwbl'.
4. **Pa sgiliau, gwybodaeth a galluoedd ydych chi wedi eu gweld mewn graddedigion?** Meddyliwch am eich profiad o raddedigion a dywedwch wrthym i ba raddau y maent yn dangos y sgiliau, y wybodaeth a'r galluoedd isod pan maen nhw'n cael eu cyflogi i ddechrau yn eich sefydliad/cwmni/busnes ar ôl graddio. Dewiswch un ateb o blith y canlynol: 'I raddau mawr iawn', 'I raddau mawr', 'Eithaf tipyn', 'I ryw raddau' a 'Ddim o gwbl'.

Sicrhawyd sampl cyfleus o gyfranogwyr drwy arolwg ar-lein. Cafodd y cyfranogwyr hyn, sydd oll yn gyflogwyr yn y DU, eu recriwtio drwy e-bost a chysylltwyd â hwy drwy systemau ar-lein dan reolaeth gwasanaethau gyrfaoedd a chyflogadwyedd y sefydliadau cydweithredol. Nid oedd gan yr ymchwilydd fynediad uniongyrchol at unrhyw fanylion cyswllt; yn hytrach, dosbarthodd y gwasanaethau gyrfaoedd y negeseuon e-bost drwy eu systemau sefydledig, oedd yn cynnwys e-byst neu blatfformau ymgysylltu rhyngweithiol megis 'Target Connect'. Sicrhawyd y caniatâd angenrheidiol gan y gwasanaethau gyrfaoedd a'r adrannau perthnasol cyn defnyddio'r systemau hyn.

Dosbarthwyd yr **holiadur myfyrwyr** i fyfyrwyr ar draws yr un sefydliadau i weld pa mor ymwybodol ydyn nhw o'r priodoleddau mewn graddedigion y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi fwyaf. Nod hyn oedd asesu'r gyfatebiaeth rhwng canfyddiadau'r myfyrwyr a disgwyliadau gwirioneddol y diwydiant, yn ymwneud yn benodol â'r priodoleddau sydd gan raddedigion, gan felly bontio'r bwlch rhwng y gwaith paratoi academaidd a gofynion y gweithle. Dyma oedd y cwestiynau allweddol:

1. **Beth yw'r priodoleddau graddedigion sy'n bwysig i'ch gyrfa chi?** Meddyliwch pa briodoleddau graddedigion sydd eu hangen arnoch chi er mwyn llwyddo yn eich gyrfa yn y dyfodol. Ail-drefnwch y deg priodoledd a ganlyn i ddangos pa mor bwysig ydyn nhw i'ch gyrfa ddewisedig chi. Rhowch y priodoledd pwysicaf ar frig eich rhestr, a'r priodoledd lleiaf pwysig ar waelod eich rhestr.
2. **Pa briodoleddau graddedigion ydych chi wedi eu datblygu ar eich cwrs?** Meddyliwch am eich cwrs cyfredol ac ystyriwch sut mae'r addysgu ar eich cwrs wedi eich helpu chi i ddatblygu'r priodoleddau graddedigion isod. Ail-drefnwch y deg priodoledd a ganlyn i ddangos i ba raddau yr ydych wedi datblygu'r priodoleddau hyn ar eich cwrs hyd yn hyn. Rhowch y priodoledd yr ydych wedi ei ddatblygu fwyaf ar frig eich rhestr, a'r priodoledd yr ydych wedi ei ddatblygu leiaf ar waelod eich rhestr.
3. **Beth yw'r sgiliau, y wybodaeth a'r galluoedd sy'n bwysig i'ch gyrfa chi?** Nodwch isod pa mor bwysig yw'r sgiliau, y wybodaeth a'r galluoedd a ganlyn i'ch gyrfa ddewisedig chi. Dewiswch un ateb o blith y canlynol: 'Eithriadol bwysig', 'Pwysig iawn', 'Eithaf pwysig', 'Ychydig bach yn bwysig' a 'Ddim yn bwysig o gwbl'.
4. **Pa sgiliau, gwybodaeth a galluoedd ydych chi wedi eu dysgu ar eich cwrs?** Meddyliwch am eich cwrs cyfredol a dywedwch wrthym faint mae eich cwrs wedi eich helpu chi i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r galluoedd a ganlyn. Dewiswch un ateb o blith y canlynol: 'I raddau mawr iawn', 'I raddau mawr', 'Eithaf tipyn', 'I ryw raddau' a 'Ddim o gwbl'.

Roedd y cyfranogwyr yn fyfyrwyr oedd wedi eu cofrestru ar raglenni addysg uwch (israddedig ac ôl-raddedig) yn y sefydliadau oedd yn cydweithio. Cafwyd y recriwtiad drwy e-bost, systemau gyrfaoedd, arweinwyr academaidd ym maes cyflogadwyedd, ac undebau myfyrwyr. Yn yr un modd â'r hyn a ddigwyddodd gyda'r arolwg cyflogwyr, ni chafodd yr ymchwilydd fynediad uniongyrchol at y manylion cyswllt. Roedd pob sefydliad yn defnyddio eu systemau sefydledig i rannu gwybodaeth am yrfaoedd, megis hysbysiadau ar wefannau'r rhith-amgylchedd dysgu sy'n ymwneud yn benodol â gyrfaoedd, negeseuon drwy'r platfform Target Connect, bwletinau i fyfyrwyr, a chylchlythyrau e-bost at yr holl fyfyrwyr gan arweinwyr cyflogadwyedd. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd gan y sefydliadau'n amrywio yn dibynnu ar eu systemau gyrfaoedd penodol, a sicrhawyd y caniatâd angenrheidiol o flaen llaw. Ym Mhrifysgol Bangor, cafwyd recriwtiad ychwanegol drwy'r system 'SONA' yn yr Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon.

Mae'r adrannau a ganlyn yn rhoi manylion yr hyn a ganfuwyd gan holiaduron y myfyrwyr a'r cyflogwyr, gan orffen gyda dadansoddiad cymharol o'r ddau set o ganlyniadau.

**Yr holiadur i gyflogwyr**

Ar ôl gosod o'r neilltu unrhyw ymatebion rhannol oedd heb ddigon o ddata i'w ddadansoddi, cafodd y canlyniadau eu prosesu ar gyfer 67 o gyflogwyr a ymatebodd. Mae rhagor o ddadansoddiad data yn yr Atodiadau.

Sefydliadau a swyddi

Roedd ymatebwyr yr arolwg yn grŵp amrywiol o ran eu swyddi, maint eu sefydliadau, a'u sectorau. O ran eu swyddi, roedd 32.8% ohonynt yn aelodau uwch o'r staff, 31.3% yn berchnogion, prif weithredwyr neu reolwyr gyfarwyddwyr, 25.4% yn aelodau canolradd o'r staff, 9.0% yn gyfrifol am recriwtio neu hurio staff newydd, ac roedd 1.5% yn aelodau iau o'r staff. O ran maint eu sefydliad, roedd 35.8% ohonynt yn gweithio mewn busnesau unig fasnachwr, 23.9% mewn busnesau bach (rhwng 11 a 49 o weithwyr), 20.9% mewn busnesau micro (llai na 10 o weithwyr), a 19.4% mewn busnesau canolig (rhwng 50 a 249 o weithwyr). Roedd y dosbarthiad sectorau'n dangos bod 20% yn gweithio mewn Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol, 12.3% mewn Addysg, a 9.2% ymhob un o'r rhain: Hysbysu a Chyfathrebu, a Gweithgynhyrchu. Roedd amrywiol sectorau eraill hefyd, yn cynnwys y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden, Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Iechyd Pobl a Gwaith Cymdeithasol, ac roedd pob un o'r rhain yn cyfrif am ganrannau llai o gyfanswm yr ymatebwyr.

Priodoleddau graddedigion: Y maint o bwysigrwydd a nodwyd

Roedd y dadansoddiad yn ystyried faint o bwysigrwydd a roddwyd i bob un o'r priodoleddau graddedigion yn y sector y mae'r cyflogwr yn gweithredu ynddo. Nodwch fod sgôr is yn golygu bod y priodoledd hwn yn dod yn agosach at y safle cyntaf, felly mae'n dangos safle rhestrol uwch.

Yn gyffredinol, mae 'Hunan-gyfarwyddo' a 'Chymhwyso' wedi eu rhestru uchaf, gyda safleoedd rhestrol Cymedr o 3 a 4, sy'n dangos eu bod yn dod yn agos i frig y rhestr yn aml. Mae eu safleoedd rhestrol Modd o 2 ac 1, yn y drefn honno, yn atgyfnerthiad pellach o'r ffaith bod nifer uchel wedi eu dewis. Hefyd, mae 'Cydweithio', 'Dyfeisgarwch' ac 'Herio' yn dangos safleoedd rhestrol uchel gyda sgorau Cymedr o 4, 5 a 5. Mae gan briodoleddau megis 'Ymholi' ac 'Ysbrydoli' safleoedd rhestrol Cymedr a Modd ychydig yn uwch, sy'n awgrymu eu bod ar lefel ganolig o ran y nifer a'u dewisodd. Yn olaf, mae sgorau Cymedr uchel (8, 8, 6), a sgorau Modd uchel (10, 9, 10), i 'Bod yn gynhwysol', 'Bod yn unigryw' a 'Gweithio'n annibynnol', sy'n dangos eu bod yn cael eu sgorio'n is yn amlach.

| **Priodoleddau** | **Safle rhestrol Cymedr** | **Safle rhestrol Modd** |
|---|---|---|
| Cymhwyso | 4 | 1 |
| Herio | 5 | 4 |
| Cydweithio | 4 | 3 |
| Bod yn gynhwysol | 8 | 10 |
| Gweithio'n annibynnol | 6 | 10 |
| Bod yn unigryw | 8 | 9 |
| Dyfeisgarwch | 5 | 1 |
| Ymholi | 6 | 7 |
| Ysbrydoli | 6 | 6 |
| Hunan-gyfarwyddo | 3 | 2 |

Priodoleddau graddedigion: A ddangosir gan raddedigion


Roedd y dadansoddiad yn yr adran hon yn ystyried canfyddiadau'r cyflogwyr ynglŷn â faint mae'r priodoleddau graddedigion hyn yn cael eu dangos gan raddedigion yn eu sector. Nodwch fod sgôr is yn golygu bod y priodoledd hwn yn dod yn agosach at y safle cyntaf, felly mae'n dangos safle rhestrol uwch.

'Ysbrydoli' a 'Dyfeisgarwch' sy'n cael eu dangos uchaf yn amlaf mewn graddedigion, gyda safleoedd rhestrol Cymedr o 4 a 5, ochr yn ochr â safleoedd rhestrol Modd o 1 a 2 ar gyfer y priodoleddau 'Hunan-gyfarwyddo', 'Bod yn unigryw', 'Cymhwyso', 'Ymholi' a 'Bod yn gynhwysol', ac roeddent wedi sgorio ynghanol y tabl gyda safleoedd rhestrol Cymedr o 5, ond trefn restrol Modd yn y drefn a gyflwynir yma. Yn olaf, gan 'Cydweithio', 'Herio' a 'Gweithio'n annibynnol' y mae'r safleoedd rhestrol Cymedr isaf o 6, 7 ac 8, a safleoedd rhestrol Modd o 7, 9 a 10, sy'n dangos eu bod ar y safle isaf fel priodoleddau a welwyd mewn graddedigion.

| **Priodoleddau** | **Safle rhestrol Cymedr** | **Safle rhestrol Modd** |
|---|---|---|
| Cymhwyso | 5 | 5 |
| Herio | 7 | 7 |
| Cydweithio | 6 | 10 |
| Bod yn gynhwysol | 5 | 8 |
| Gweithio'n annibynnol | 8 | 9 |
| Bod yn unigryw | 5 | 4 |
| Dyfeisgarwch | 4 | 1 |
| Ymholi | 5 | 6 |
| Ysbrydoli | 5 | 2 |
| Hunan-gyfarwyddo | 5 | 3 |

Gwnaethpwyd dadansoddiad prawf-t pâr i gymharu safleoedd rhestrol y priodoleddau a welwyd mewn graddedigion gyda safleoedd rhestrol y pwysigrwydd a roddwyd i'r priodoleddau hyn yn y sector. Nodwch fod y data wedi ei addasu ychydig bach o'r tablau uchod oherwydd ni chynhwyswyd y canlyniadau ar gyfer unrhyw eitem na ellid eu paru oherwydd bod data ar goll ar un o'r cwestiynau.

Dangosodd y dadansoddi bod cyflogwyr wedi rhoi sgôr llawer uwch i bwysigrwydd pum priodoledd mewn graddedigion os ydyn nhw am weithio yn y sector hwnnw, na maint y priodoleddau hyn a ddangoswyd gan raddedigion: 'Cymhwyso', 'Herio', 'Cydweithio', 'Gweithio'n annibynnol' a 'Hunan-gyfarwyddo'. I'r gwrthwyneb, rhoesant bwysigrwydd llawer uwch i bedwar priodoledd a welwyd mewn graddedigion na'u pwysigrwydd ar gyfer gyrfa benodol: 'Bod yn gynhwysol', 'Bod yn unigryw', 'Ymholi' ac 'Ysbrydoli'. Ni welwyd gwahaniaeth arwyddocaol ar gyfer 'Dyfeisgarwch'.




Ffigur 1: Safleoedd rhestrol Cymedr y maint o bwysigrwydd a roddwyd i'r priodoleddau graddedigion ac i ba raddau y mae graddedigion yn eu dangos (nodwch fod sgôr Cymedr is yn golygu ei fod wedi cael sgôr uwch).

Sgiliau a galluoedd: Y maint o bwysigrwydd a nodwyd

Roedd y dadansoddiad yn ystyried y maint o bwysigrwydd a roddwyd i bob un o'r sgiliau a'r galluoedd yn y sector y mae'r cyflogwr yn gweithredu ynddo. Nodwch fod y sgorau wedi eu halinio â graddfa Likert o 'Ddim yn bwysig o gwbl' i 'Eithriadol bwysig', felly mae sgôr uwch yn dynodi mwy o bwysigrwydd.

Mae'r dadansoddiad yn dangos bod cyflogwyr, yn gyffredinol, yn nodi bod y mwyafrif o sgiliau'n bwysig, er bod 'Gallu arwain' (C = 2.94) a 'Defnyddio technegau amlgyfrwng' (C = 2.77) yn dangos cyfartaledd isel o fewn y categori 'Ychydig bach yn bwysig'. Un peth i'w nodi oedd bod 'Parodrwydd i ddysgu' (C = 4.52), 'Gallu addasu' (C = 4.42) a 'Datrys problemau' (C = 4.38) wedi derbyn y sgorau uchaf, gan ddangos bod y mwyafrif o gyflogwyr yn ystyried mai'r sgiliau hyn yw'r rhai mwyaf hanfodol bwysig. Hefyd, roedd cyflogwyr yn ystyried sgiliau sy'n ymwneud â gweithio gyda phobl eraill yn bwysig: 'Cyfathrebu geiriol' (C = 4.33) a 'Chydweithio' (C = 4.33).

| **Sgiliau** | **Sgôr Cymedr (C) 'Maint o bwysigrwydd'** |
|---|---|
| Parodrwydd i ddysgu | 4.52 |
| Gallu addasu | 4.42 |
| Datrys problemau | 4.38 |
| Gweithio mewn tîm | 4.33 |
| Cyfathrebu geiriol | 4.33 |
| Cydweithio | 4.31 |
| Gweithio'n annibynnol | 4.26 |
| Cwblhau gwaith erbyn dyddiad penodol | 4.21 |
| Bod yn drefnus | 4.15 |
| Meddwl beirniadol | 4.10 |
| Ymrwymiad | 4.08 |
| Gwytnwch | 4.04 |

| | |
|---|---|
| Rheoli heriau | 4.02 |
| Rheoli anawsterau a methiant | 4.02 |
| Prydlondeb a phresenoldeb | 3.94 |
| Adeiladu cydberthynas | 3.94 |
| Chwilfrydedd | 3.81 |
| Meddwl arloesol | 3.81 |
| Meddwl creadigol | 3.73 |
| Gwybodaeth arbenigol mewn pwnc penodol | 3.72 |
| Ymwybyddiaeth o foeseg ac ymrwymiad iddi | 3.69 |
| Sgiliau a llythrennedd technoleg ddigidol | 3.65 |
| Hunan-hyder a hunan-barch | 3.60 |
| Deallusrwydd emosiynol | 3.56 |
| Hunanystyriaeth a hunanymwybyddiaeth feirniadol | 3.56 |
| Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | 3.55 |
| Sgiliau rhifedd | 3.45 |
| Rheoli gwrthdaro | 3.35 |
| Ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd | 3.34 |
| Uchelgais | 3.25 |
| Sgiliau ymchwilio | 3.19 |
| Sgiliau cyflwyno | 3.17 |
| Rheoli prosiectau | 3.15 |
| Ysgrifennu adroddiadau | 3.11 |
| Rhwydweithio | 3.04 |
| Gallu arwain | 2.94 |
| Defnyddio technegau amlgyfrwng | 2.77 |

Sgiliau a galluoedd: A ddangosir gan raddedigion

Roedd dadansoddiad yn yr adran hon yn ystyried faint o bob sgìl a gallu a ddangoswyd gan y graddedigion cyfredol, yn ôl y cyflogwr. Nodwch fod y sgorau wedi eu halinio â graddfa Likert o 'Ddim o gwbl' hyd at 'I raddau mawr iawn', felly mae sgôr uwch yn dynodi arddangosiad mwy o'r sgìl a/neu'r gallu gan raddedigion.

Mae'r dadansoddiad yn dangos mai sgôr isel a roddwyd yn gyffredinol gan gyflogwyr i sgiliau a galluoedd a ddangoswyd gan raddedigion, ac ni chafodd unrhyw sgiliau sgôr wedi'i dalgrynnu yn y categori uchaf. Yn nodedig, rhoddwyd y sgorau uchaf i 'Parodrwydd i ddysgu' (C = 3.73), 'Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant' (C = 3.64) ac 'Ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd' (C = 3.59), gan ddangos mai'r sgiliau hyn a welir fwyaf mewn graddedigion ym mhrofiad yr atebwyr. Ar y llaw arall, cafodd 'Gallu arwain' (C = 2.11), 'Rheoli gwrthdaro' (C = 2.39) a 'Rheoli prosiectau' (C = 2.50) y sgôr isaf, gan awgrymu mai'r farn yw bod y sgiliau hyn yn cael eu dangos llai mewn graddedigion ar hyn o bryd. Hefyd, cafodd y sgiliau hynny sy'n gysylltiedig â gwytnwch sgôr isel o ran faint maen nhw'n cael eu dangos gan raddedigion': 'Gwytnwch' (C = 2.67), 'Rheoli heriau' (C = 2.62) a 'Rheoli anawsterau a methiant' (C = 2.58).


| Sgiliau | Sgôr Cymedr (C) 'A ddangosir gan raddedigion' |
|---|---|
| Parodrwydd i ddysgu | 3.73 |
| Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | 3.64 |
| Ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd | 3.59 |
| Sgiliau a llythrennedd technoleg ddigidol | 3.47 |
| Gweithio mewn tîm | 3.47 |
| Uchelgais | 3.40 |
| Cydweithio | 3.38 |
| Ymwybyddiaeth o foeseg ac ymrwymiad iddi | 3.36 |
| Defnyddio technegau amlgyfrwng | 3.33 |
| Cwblhau gwaith erbyn dyddiad penodol | 3.33 |
| Prydlondeb a phresenoldeb | 3.30 |
| Chwilfrydedd | 3.29 |
| Ymrwymiad | 3.27 |
| Bod yn drefnus | 3.22 |
| Cyfathrebu geiriol | 3.20 |
| Gallu addasu | 3.16 |
| Sgiliau rhifedd | 3.16 |
| Sgiliau ymchwilio | 3.16 |
| Gwybodaeth arbenigol mewn pwnc penodol | 3.16 |
| Adeiladu cydberthynas | 3.13 |
| Hunan-hyder a hunan-barch | 3.04 |
| Datrys problemau | 2.96 |
| Gweithio'n annibynnol | 2.96 |
| Deallusrwydd emosiynol | 2.93 |
| Meddwl arloesol | 2.91 |
| Meddwl creadigol | 2.89 |
| Sgiliau cyflwyno | 2.89 |
| Hunanystyriaeth a hunanymwybyddiaeth feirniadol | 2.89 |
| Meddwl beirniadol | 2.82 |
| Ysgrifennu adroddiadau | 2.76 |
| Rhwydweithio | 2.71 |
| Gwytnwch | 2.67 |
| Rheoli heriau | 2.62 |
| Rheoli anawsterau a methiant | 2.58 |
| Rheoli prosiectau | 2.50 |
| Rheoli gwrthdaro | 2.39 |
| Gallu arwain | 2.11 |

Gwnaethpwyd dadansoddiad prawf-t pâr i gymharu safleoedd rhestrol y priodoleddau a ddangoswyd gan raddedigion gyda safleoedd rhestrol y pwysigrwydd a roddwyd i'r priodoleddau hyn yn y sector y mae'r cyflogwr yn gweithredu ynddo. Nodwch fod y data wedi ei addasu ychydig bach o'r

tablau uchod oherwydd ni chynhwyswyd y canlyniadau ar gyfer unrhyw eitem na ellid eu paru oherwydd bod data ar goll ar un o'r cwestiynau.

Roedd y dadansoddi'n dangos bod cyflogwyr yn rhoi sgôr llawer uwch i 29 o'r 37 sgìl am eu pwysigrwydd i'w sector nag am y lefel ohonynt a ddangoswyd gan y graddedigion cyfredol. Roedd y bwlch hwn rhwng 'Maint o bwysigrwydd' ac 'A ddangosir gan raddedigion' yn arbennig o amlwg ar gyfer 'Rheoli anawsterau a methiant' ('Maint o bwysigrwydd' = 4.02, 'A ddangosir' = 2.58), 'Datrys problemau' ('Maint o bwysigrwydd' = 4.38, 'A ddangosir' = 2.96), 'Rheoli heriau' ('Maint o bwysigrwydd' = 4.02, 'A ddangosir' = 2.62), a 'Gwytnwch' ('Maint o bwysigrwydd' = 4.04, 'A ddangosir' = 2.67).

I'r gwrthwyneb, dim ond y sgìl 'Defnyddio technegau amlgyfrwng' y gwelwyd llawer mwy ohono mewn graddedigion (3.33) o'i gymharu â'r maint o bwysigrwydd a roddwyd iddo yn y sector (2.77). Cafodd y sgìl hwn ei sgorio isaf yn nhermau ei bwysigrwydd i'r sector, ond yn y nawfed lle am fod yn sgìl 'A ddangosir gan raddedigion'.





Ffigur 2: Sgorau Cymedr ar gyfer y maint o bwysigrwydd a roddwyd i'r sgiliau a faint y mae'r sgiliau wedi cael eu datblygu ar y cwrs cyfredol.

Dadansoddiad thematig o'r cwestiynau agored

Trwy wneud dadansoddiad thematig sylfaenol o'r sylwadau agored ar yr holiadur, canfuwyd y themâu a ganlyn:

1. Perchnogaeth a chyfrifoldeb
   - "Ysgwyddo'r cyfrifoldeb – yn bwysig iawn."
   - "Mae gan raddedigion syniad rhy uchel o'r tâl sydd i'w ddisgwyl."
2. Agwedd, gallu i addasu a chymhwyso
   - "Cymhwyso gwybodaeth mewn cyd-destun sy'n wahanol i hwnnw a ddysgwyd yn wreiddiol."
   - "Mae angen bod â gwybodaeth sylfaenol dda, a bod yn agored i her ac yn barod i ddysgu."
   - "Sgiliau ymarferol a synnwyr cyffredin, ymrwymiad ac ymroddiad, bod yn brydlon ac yn gwrtais."
   - "Mae parodrwydd i ddysgu ac agwedd gadarnhaol yn bwysig."
3. Profiad ymarferol
   - "Prentisiaid yw'r ffordd ymlaen. Nid oes sgiliau defnyddiol gan raddedigion academaidd."
   - "Mae lleoliadau gwaith a phrofiad yn y gweithle go iawn yn hynod o werthfawr."



## Yr holiadur i fyfyrwyr

Ar ôl gosod o'r neilltu unrhyw ymatebion rhannol oedd heb ddigon o ddata i'w ddadansoddi, cafodd y canlyniadau eu prosesu ar gyfer 434 o fyfyrwyr a ymatebodd. Mae rhagor o ddadansoddiad data yn yr Atodiadau.

Demograffeg

Roedd yr ymatebwyr rhwng 18 a 64 oed, ac roedd 56% ohonynt yn 18-24 oed a 28% yn 35-44 oed. O ran cynrychiolaeth y rhywiau, benywod oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf (74% yn fenywod / 24% yn wrywod). Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn eu hystyried eu hunain yn fenywod (72%) a nifer is yn eu hystyried eu hunain yn ddynion (23%). Roedd lleiafswm yn eu hystyried eu hunain yn rhyweddhylifol neu'n anneuaidd (4%). Y cenedligrwydd Prydeinig oedd y mwyaf cyffredin (33.4%), ac yn dilyn hynny roedd y Cymry (17.7%) a'r Saeson (9.7%). Ymysg y cefndiroedd ethnig eraill roedd pobl Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig (20.7%) a phobl Ddu (4.4%). Roedd cynrychiolaeth fach ond amrywiol o wladolion a chefndiroedd ethnig eraill.

Meysydd astudio a lefelau academaidd

Roedd yr ymatebion yn dangos cynrychiolaeth ar draws yr holl feysydd astudio a lefelau academaidd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn astudio ar gyrsiau israddedig sy'n arwain at raddau baglor (33% BSc, 10% BA), ac roedd y rhan ail fwyaf yn astudio ar gyrsiau ôl-raddedig sy'n arwain at raddau meistr (24% MSc, 4% MA). Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn astudio Seicoleg (45%) ac roedd y gynrychiolaeth wedi ei gwasgaru'n dda ar draws 30 o feysydd astudio eraill.

Dyheadau gyrfaol ar gyfer y dyfodol

Roedd y dyheadau gyrfaol ar gyfer y dyfodol yn canolbwyntio ar fod yn gyflogedig (65%) yn hytrach nag yn hunangyflogedig (16%), ond roedd eu dymuniadau o ran maint y sefydliad yn gytbwys ar draws yr ymatebwyr i gyd (22% yn dewis busnesau mawr, 18% yn dewis busnesau canolig, a 15% yn dewis busnesau bach). Gwelwyd cynrychiolaeth eang ar draws y diwydiannau pan ofynnwyd iddynt ddewis eu dymuniad o ran sector yn y dyfodol. Dewisodd y gyfran fwyaf y sectorau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (39%), addysg (12%), a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (10%). Roedd yr ymatebwyr oedd yn weddill wedi eu gwasgaru'n eithaf rhesymol dros 18 o sectorau eraill. Mae rhagor o wybodaeth am ddyheadau gyrfaol y sampl o fyfyrwyr yn Atodiad 3.

Priodoleddau graddedigion: Y maint o bwysigrwydd a nodwyd

Roedd y dadansoddiad a wnaed o'r safleoedd rhestrol ar gyfer priodoleddau graddedigion yn ystyried yn gyntaf pa mor bwysig oedd y priodoleddau hyn i yrfa arfaethedig y myfyriwr. Nodwch fod sgôr is yn golygu bod y priodoledd hwn yn dod yn agosach at y safle cyntaf, felly mae'n dangos safle rhestrol uwch.

Yn gyffredinol, mae 'Hunan-gyfarwyddo' a 'Dyfeisgarwch' wedi eu rhestru uchaf, gyda safleoedd rhestrol Cymedr o 4, sy'n dangos eu bod yn dod yn agos i frig y rhestr yn aml. Roedd eu safleoedd rhestrol Modd, sef 3 ac 1 yn y drefn honno, yn atgyfnerthu ymhellach bod y rhain yn ddewisiadau uchel ganddynt. Yn dilyn y rhain, cafodd priodoleddau megis 'Cymhwyso' ac 'Ysbrydoli' safleoedd rhestrol uchel gyda sgorau Cymedr o 5. Cafodd y priodoleddau megis 'Herio', 'Cydweithio', 'Bod yn unigryw' ac 'Ymholi' safleoedd rhestrol Cymedr ychydig yn uwch o oddeutu 6, gan awgrymu dewis ar lefel ganolig. Yn olaf, mae gan 'Bod yn gynhwysol' a 'Gweithio'n annibynnol' y safleoedd rhestrol Cymedr uchaf o 7, gan ddangos eu bod yn cael eu sgorio'n is yn amlach.

| Priodoleddau | Safle rhestrol Cymedr | Safle rhestrol Modd |
|---|---|---|
| Cymhwyso | 5 | 5 |
| Herio | 6 | 7 |
| Cydweithio | 6 | 10 |
| Bod yn gynhwysol | 7 | 8 |
| Gweithio'n annibynnol | 7 | 9 |
| Bod yn unigryw | 6 | 4 |
| Dyfeisgarwch | 4 | 1 |
| Ymholi | 6 | 6 |
| Ysbrydoli | 5 | 2 |
| Hunan-gyfarwyddo | 4 | 3 |

Priodoleddau graddedigion: A ddatblygir ar y cwrs

Roedd y dadansoddiad yn yr adran hon yn ystyried canfyddiadau'r myfyrwyr ynglŷn â faint mae'r priodoleddau graddedigion hyn yn cael eu haddysgu, gan ddangos tueddiadau tebyg i'r maint o bwysigrwydd a roddwyd iddyn nhw. Nodwch fod sgôr is yn golygu bod y priodoledd hwn yn dod yn agosach at y safle cyntaf, felly mae'n dangos safle rhestrol uwch.


Mae 'Hunan-gyfarwyddo' a 'Dyfeisgarwch' yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn, gyda safleoedd rhestrol Cymedr o 3 a 4, yn y drefn honno, sy'n dangos eu bod yn cael eu sgorio'n agos i'r brig yn aml. Mae eu safleoedd rhestrol Modd, 3 ar gyfer 'Hunan-gyfarwyddo' ac 1 ar gyfer 'Dyfeisgarwch', yn tanlinellu ymhellach y maint o bwysigrwydd a roddwyd iddynt. Mae safleoedd pwysig gan briodoleddau megis 'Cymhwyso' ac 'Ysbrydoli' hefyd, gyda safleoedd rhestrol Cymedr o 5 a 5, a safleoedd rhestrol Modd o 5 a 2, yn y drefn honno. Mae'r dewisiadau haen ganol yn cynnwys 'Herio', 'Bod yn unigryw' ac 'Ymholi', gyda safleoedd rhestrol Cymedr o 5, 6 a 6. Yn olaf, mae gan 'Bod yn gynhwysol', 'Gweithio'n annibynnol' a 'Chydweithio' y safleoedd rhestrol Cymedr uchaf o 7, 7, a 7, a safleoedd rhestrol Modd o 8, 9 a 10, gan ddangos eu bod yn cael eu sgorio'n is yn amlach.

| Priodoleddau | Safle rhestrol Cymedr | Safle rhestrol Modd |
|---|---|---|
| Cymhwyso | 5 | 5 |
| Herio | 5 | 7 |
| Cydweithio | 7 | 10 |
| Bod yn gynhwysol | 7 | 8 |
| Gweithio'n annibynnol | 7 | 9 |
| Bod yn unigryw | 6 | 4 |
| Dyfeisgarwch | 4 | 1 |
| Ymholi | 6 | 6 |
| Ysbrydoli | 5 | 2 |
| Hunan-gyfarwyddo | 3 | 3 |

Gwnaethpwyd dadansoddiad prawf-t pâr i gymharu'r ddau beth yma: safleoedd rhestrol y maint o bwysigrwydd a roddwyd i'r priodoleddau hyn ar gyfer gyrfa arfaethedig y myfyriwr, a hefyd y safleoedd rhestrol ar gyfer faint maen nhw'n cael eu datblygu ar y cwrs ar hyn o bryd. Nodwch fod y data wedi ei addasu ychydig bach o'r tablau uchod oherwydd ni chynhwyswyd y canlyniadau ar gyfer unrhyw eitem na ellid eu paru oherwydd bod data ar goll ar un o'r cwestiynau.

Dangosodd y dadansoddi bod myfyrwyr wedi rhoi sgôr llawer uwch i bwysigrwydd 'Cydweithio' a 'Bod yn gynhwysol' ar gyfer eu gyrfaoedd arfaethedig na'r sgôr ar gyfer faint maen nhw'n

datblygu'r sgiliau hyn ar eu cyrsiau. I'r gwrthwyneb, rhoesant sgorau llawer uwch i 'Herio', 'Gweithio'n annibynnol', 'Bod yn unigryw', 'Ysbrydoli' a 'Hunan-gyfarwyddo' am y maint sy'n cael eu haddysgu ar eu cyrsiau, o'i gymharu â pha mor bwysig ydyn nhw i'w gyrfaoedd arfaethedig. Ni welwyd gwahaniaethau arwyddocaol ar gyfer y priodoleddau eraill.




Ffigur 3: Safleoedd rhestrol Cymedr y maint o bwysigrwydd a roddwyd i'r priodoleddau graddedigion ac i ba raddau y maent yn cael eu haddysgu ar y cwrs cyfredol (nodwch fod sgôr Cymedr is yn golygu ei fod wedi cael sgôr uwch).

Sgiliau a galluoedd: Y maint o bwysigrwydd a nodwyd

Roedd y dadansoddiad yn ystyried faint o bwysigrwydd a roddwyd i bob un o'r sgiliau a galluoedd ar gyfer gyrfa arfaethedig y myfyriwr. Nodwch fod y sgorau wedi eu halinio â graddfa Likert o 'Ddim yn bwysig o gwbl' i 'Eithriadol bwysig', felly mae sgôr uwch yn dynodi mwy o bwysigrwydd.

Mae'r dadansoddiad yn dangos bod myfyrwyr, yn gyffredinol, yn nodi bod yr holl sgiliau'n bwysig. Y sgôr Cymedr isaf a roddwyd i unrhyw un o'r sgiliau oedd 3.43, sy'n cael ei gategoreiddio fel 'Eithaf pwysig'. Felly ni chafodd unrhyw sgiliau sgôr Cymedr a fyddai wedi dynodi 'Ychydig bach yn bwysig' neu 'Ddim yn bwysig o gwbl'. Un peth i'w nodi oedd bod 'Cyfathrebu geiriol' (C = 4.50), 'Parodrwydd i ddysgu' (C = 4.49) a 'Datrys problemau' (C = 4.40) wedi derbyn y sgorau uchaf, sy'n dangos bod y sgiliau hyn yn cael eu hystyried yn hanfodol gan y rhan fwyaf o'r myfyrwyr. I'r gwrthwyneb, mae 'Sgiliau rhifedd' (C = 3.43), 'Defnyddio technegau amlgyfrwng' (C = 3.47) ac 'Ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd' (C = 3.55) wedi derbyn y sgorau isaf, sy'n awgrymu bod y sgiliau hyn yn cael eu hystyried yn llai hanfodol.

| Sgiliau | Sgôr Cymedr (C) 'Maint o bwysigrwydd' |
|---|---|
| Cyfathrebu geiriol | 4.5 |
| Parodrwydd i ddysgu | 4.49 |
| Datrys problemau | 4.4 |
| Ymrwymiad | 4.38 |
| Meddwl beirniadol | 4.35 |
| Rheoli heriau | 4.35 |
| Gwybodaeth arbenigol mewn pwnc penodol | 4.35 |
| Prydlondeb a phresenoldeb | 4.34 |
| Bod yn drefnus | 4.31 |
| Gwytnwch | 4.3 |
| Gallu addasu | 4.28 |
| Ymwybyddiaeth o foeseg ac ymrwymiad iddi | 4.26 |
| Rheoli anawsterau a methiant | 4.25 |
| Hunanystyriaeth a hunanymwybyddiaeth feirniadol | 4.24 |
| Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | 4.24 |
| Cwblhau gwaith erbyn dyddiad penodol | 4.21 |
| Hunan-hyder a hunan-barch | 4.18 |
| Deallusrwydd emosiynol | 4.15 |
| Adeiladu cydberthynas | 4.14 |
| Gweithio mewn tîm | 4.13 |
| Cydweithio | 4.11 |
| Gweithio'n annibynnol | 4.05 |
| Rheoli gwrthdaro | 4.02 |
| Meddwl creadigol | 4.01 |
| Meddwl arloesol | 3.97 |
| Sgiliau ymchwilio | 3.97 |
| Uchelgais | 3.92 |
| Ysgrifennu adroddiadau | 3.87 |
| Chwilfrydedd | 3.84 |
| Sgiliau a llythrennedd technoleg ddigidol | 3.78 |
| Sgiliau cyflwyno | 3.74 |
| Rhwydweithio | 3.73 |
| Gallu arwain | 3.7 |
| Rheoli prosiectau | 3.59 |
| Ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd | 3.55 |
| Defnyddio technegau amlgyfrwng | 3.47 |
| Sgiliau rhifedd | 3.43 |

Sgiliau a galluoedd: A ddatblygir ar y cwrs


Roedd y dadansoddiad yn yr adran hon yn ystyried faint mae pob un o'r sgiliau a galluoedd wedi eu datblygu ar y cwrs cyfredol, ym marn y myfyriwr. Nodwch fod y sgorau wedi eu halinio â graddfa Likert o 'Ddim o gwbl' hyd at 'I raddau mawr iawn', felly mae sgôr uwch yn dynodi arddangosiad mwy o'r sgìl a/neu'r gallu gan raddedigion.

Mae'r dadansoddiad yn dangos bod myfyrwyr, yn gyffredinol, yn cydnabod eu bod yn datblygu pob un o'r sgiliau sydd wedi eu rhestru ar eu rhaglenni cyfredol. Y sgôr Cymedr isaf a roddwyd i unrhyw un o'r sgiliau oedd 3.03, sy'n cael ei gategoreiddio fel 'Eithaf tipyn'. Felly ni chafodd unrhyw sgiliau sgôr Cymedr a fyddai wedi dynodi 'I ryw raddau' neu 'Ddim o gwbl'. Un peth i'w nodi oedd bod 'Gweithio'n annibynnol' (M = 4.34), 'Cwblhau gwaith erbyn dyddiad penodol' (M = 4.31), a 'Gwybodaeth arbenigol mewn pwnc penodol' (M = 4.28) wedi derbyn y sgorau uchaf, sy'n dangos mai'r sgiliau hyn yw'r rhai y maen nhw'n teimlo eu bod yn eu datblygu fwyaf ar eu cyrsiau hyfforddi. I'r gwrthwyneb, mae 'Rhwydweithio' (C = 3.03), 'Gallu arwain' (C = 3.04) a 'Rheoli gwrthdaro' (C = 3.09) wedi derbyn y sgorau isaf, sy'n awgrymu bod y sgiliau hyn yn cael eu hystyried fel rhai sy'n llai datblygedig ar y rhaglenni cyfredol.

| **Sgiliau** | **Sgôr Cymedr (C) 'A ddatblygir ar y cwrs'** |
|---|---|
| Gweithio'n annibynnol | 4.34 |
| Cwblhau gwaith erbyn dyddiad penodol | 4.31 |
| Gwybodaeth arbenigol mewn pwnc penodol | 4.28 |
| Sgiliau ymchwilio | 4.25 |
| Parodrwydd i ddysgu | 4.2 |
| Meddwl beirniadol | 4.17 |
| Hunanystyriaeth a hunanymwybyddiaeth feirniadol | 4.05 |
| Bod yn drefnus | 4.04 |
| Ymrwymiad | 4.03 |
| Prydlondeb a phresenoldeb | 3.97 |
| Ysgrifennu adroddiadau | 3.97 |
| Rheoli heriau | 3.89 |
| Datrys problemau | 3.88 |
| Gwytnwch | 3.86 |
| Cyfathrebu geiriol | 3.85 |
| Ymwybyddiaeth o foeseg ac ymrwymiad iddi | 3.83 |
| Sgiliau cyflwyno | 3.83 |
| Chwilfrydedd | 3.8 |
| Rheoli anawsterau a methiant | 3.75 |
| Uchelgais | 3.7 |
| Gallu addasu | 3.69 |
| Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | 3.69 |
| Meddwl arloesol | 3.63 |
| Meddwl creadigol | 3.62 |
| Hunan-hyder a hunan-barch | 3.61 |
| Sgiliau a llythrennedd technoleg ddigidol | 3.6 |
| Gweithio mewn tîm | 3.49 |
| Cydweithio | 3.49 |
| Deallusrwydd emosiynol | 3.47 |
| Adeiladu cydberthynas | 3.46 |
| Rheoli prosiectau | 3.37 |
| Defnyddio technegau amlgyfrwng | 3.31 |
| Sgiliau rhifedd | 3.28 |
| Ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd | 3.24 |
| Rheoli gwrthdaro | 3.09 |
| Gallu arwain | 3.04 |
| Rhwydweithio | 3.03 |

Gwnaethpwyd dadansoddiad prawf-t pâr i gymharu'r ddau beth yma: y sgorau a roddwyd ar gyfer pa mor bwysig yw'r sgìl i yrfa arfaethedig y myfyriwr, a'r sgorau i ddangos faint maen nhw'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ar y cwrs. Nodwch fod y data wedi ei addasu ychydig bach o'r tablau uchod oherwydd ni chynhwyswyd y canlyniadau ar gyfer unrhyw eitem na ellid eu paru oherwydd bod data ar goll ar un o'r cwestiynau.

Dangosodd y dadansoddi bod myfyrwyr yn rhoi sgôr llawer uwch i 31 o'r 37 sgìl am eu pwysigrwydd i'w gyrfaoedd arfaethedig na faint yr oedden nhw'n cael eu datblygu ar eu cwrs cyfredol. Mae hyn yn rhoi'r argraff bod myfyrwyr yn credu bod y sgiliau hyn yn bwysig ond nid ydynt yn credu mor gryf yn yr hyfforddiant a roddir iddynt yn y sgiliau hyn. Derbyniodd 'Sgiliau ymchwilio' a 'Gweithio'n annibynnol' sgorau llawer uwch am gael eu datblygu ar y cwrs na'u pwysigrwydd ar gyfer eu gyrfaoedd arfaethedig. Dim ond pedwar sgìl oedd heb ddangos unrhyw wahaniaeth arwyddocaol: 'Sgiliau cyflwyno', 'Ysgrifennu adroddiadau', Gwybodaeth arbenigol mewn pwnc penodol' a 'Chwblhau gwaith erbyn dyddiad penodol'. Mae hyn yn awgrymu bod y myfyrwyr yn ystyried y rhan fwyaf o'r sgiliau'n bwysig ond yn rhoi sgôr llawer is i'r graddau y maen nhw'n cael eu datblygu ar eu cyrsiau cyfredol.





Ffigur 4: Sgorau Cymedr ar gyfer y maint o bwysigrwydd a roddwyd i'r sgiliau a faint y mae'r sgiliau wedi cael eu datblygu ar y cwrs cyfredol.

Dadansoddiad thematig o'r cwestiynau agored

Trwy wneud dadansoddiad thematig sylfaenol o'r sylwadau agored ar yr holiadur, canfuwyd y themâu a ganlyn:

1. Sgiliau hanfodol
    a. Uchelgais a chymhelliant
        - "Uchelgais a chymhelliant yw'r sgiliau mwyaf pwysig."
        - "Rwy'n ceisio meithrin meddylfryd twf ym mhopeth a wnaf."
    b. Disgyblaeth a'r gallu i ganolbwyntio
        - "Sylw, disgyblaeth a gwaith caled."
        - "Canolbwyntio a bod yn ddisgybledig."
    c. Gwytnwch
        - "Bod yn wydn yw'r prif beth yr ydym ei angen."
        - "(sgiliau pwysig yw) y gallu i dderbyn gwrthodiad."
2. Profiad gwaith
    a. Gwaith allanol
        - "Mae gwaith tu allan i'r Brifysgol, yn helpu i ddatblygu trefn, prydlondeb, gwaith tîm, rheolaeth."
    b. Lleoliadau gwaith
        - "Dysgir y sgiliau i gyd drwy leoliad ymarferol. Mae darllen o lyfr yn gwbl wahanol i wneud y swydd yn ymarferol."
3. Bylchau ar y cwrs
    a. Arloesi a mentergarwch
        - "Credu fy mod wedi methu datblygu fy sgiliau arloesi ar fy nghwrs gradd, ond rwy'n deall bod hyn yn gyfyngedig oherwydd bod fy maes astudio mewn cyllid, sydd heb lawer o le i fod yn greadigol."
        - "Byddai sgiliau mentergarwch yn ddefnyddiol yn rhan o'r cwrs – dysgu sut i gynnal busnes, cadw cofnodion."
        - "(Rwyf eisiau dysgu) sut i fod yn hunangyflogedig gyda fy nghymhwyster i."
    b. Gweithio mewn tîm a Chydweithio
        - "Mae prosiectau grŵp yn y brifysgol yn wael iawn. Yn syml iawn, mae diffyg uchelgais ac atebolrwydd mewn tasgau grŵp yn gwneud i mi fod eisiau bod yn annibynnol a pheidio dibynnu ar unrhyw un yn y tîm."
        - "Mae'n debyg nad oes digon o aseiniadau grŵp i ddysgu am gydweithio a gweithio mewn tîm."
    c. Cymhwysiad ymarferol
        - "Mae angen mwy o brofiad ymarferol"
        - "Mae'r brifysgol yn anodd iawn ac nid yw'n rhoi fawr ddim amser ichi anadlu a mynd i brofi pethau eraill"
        - "Defnyddio adnoddau y tu allan i'r brifysgol i gael profiad ymarferol"
    d. Strwythur cyrsiau a darpariaeth
        - "Roedd angen i rai cyrsiau gael eu strwythuro a'u darparu mewn dulliau mwy cryno a rhesymegol."
        - "Mae angen i'r cwrs yma gael ei adnewyddu gyda meddwl ffres. Mae'n gwrs da ond nid yw'n wych yn y ffordd y maen nhw'n ei ddisgrifio."



skills
knowledge
experience
opportunities
professional
teamwork
planning
thinking
ambition
learning
discipline
industry
research
focus
management
qualification
creativity
leadership
service
collaboration
digital
strategic
development
project
networking
training
growth
motivation

**Cymharu ymatebion y cyflogwyr a'r myfyrwyr**

Dadansoddwyd ymatebion 67 o gyflogwyr a 434 o fyfyrwyr a ymatebodd, er mwyn cymharu'r sgorau a roddwyd ganddynt i'r ddau beth yma: pwysigrwydd y priodoleddau a sgiliau eraill sydd gan raddedigion, a'u dealltwriaeth o'r ffordd y mae eu cwrs yn paratoi'r pethau hyn yn y graddedigion cyfredol. Fodd bynnag, oherwydd y gwahaniaeth rhwng maint y samplau, mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ddarllen pob un o'r canfyddiadau sydd yn yr adran hon. Mae rhagor o ddadansoddiad data yn yr Atodiadau.


Priodoleddau graddedigion

Gwnaethpwyd dadansoddiad prawf-t o samplau annibynnol i gymharu'r sgorau ar gyfer y maint o bwysigrwydd a roddwyd gan fyfyrwyr a chyflogwyr i'r priodoleddau graddedigion. Nodwch fod sgôr is yn golygu safle rhestrol uwch. Dangosodd y dadansoddi wahaniaeth arwyddocaol yn safleoedd rhestrol 6 o'r 10 priodoledd. Rhoddodd y cyflogwyr bwysigrwydd llawer uwch i dri phriodoledd na'r myfyrwyr: 'Cymhwyso', 'Cydweithio' a 'Gweithio'n annibynnol'. Rhoddodd y myfyrwyr bwysigrwydd llawer uwch i dri phriodoledd na'r cyflogwyr: 'Bod yn gynhwysol', 'Bod yn unigryw' ac 'Ysbrydoli'.




Ffigur 5: Safleoedd rhestrol Cymedr y maint o bwysigrwydd a roddwyd i'r priodoleddau graddedigion gan y myfyrwyr a'r cyflogwyr.

Gwnaethpwyd dadansoddiad prawf-t arall o samplau annibynnol i gymharu'r safleoedd rhestrol yn yr ail gwestiwn allweddol. Gofynnwyd i'r myfyrwyr i ba raddau roedd eu cwrs cyfredol yn llwyddo i ddatblygu'r priodoleddau hynny. Gofynnwyd i'r cyflogwyr faint maen nhw'n gweld y priodoledd yn y graddedigion cyfredol. Yn y ddau achos, mae'r cwestiynau'n asesu i ba raddau mae cyrsiau'n llwyddo i gynhyrchu myfyrwyr sy'n graddio gyda'r deg priodoledd hyn. Dangosodd y dadansoddi wahaniaeth arwyddocaol yn safleoedd rhestrol 7 o'r 10 priodoledd. Rhoddodd y cyflogwyr bwysigrwydd llawer uwch i bedwar priodoledd na'r myfyrwyr: 'Cydweithio', 'Bod yn gynhwysol', 'Bod yn unigryw' ac 'Ymholi'. Rhoddodd y myfyrwyr bwysigrwydd llawer uwch i dri phriodoledd na'r cyflogwyr: 'Herio', 'Gweithio'n annibynnol' a 'Hunan-gyfarwyddo'.




Ffigur 6: Safleoedd rhestrol Cymedr y graddau y mae cyrsiau'n datblygu'r priodoleddau graddedigion hyn, o safbwyntiau'r myfyrwyr a'r cyflogwyr.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos diffyg cyfatebiaeth rhwng myfyrwyr a chyflogwyr o ran y maint o bwysigrwydd a roddwyd i briodoleddau graddedigion ac effeithiolrwydd cyrsiau cyfredol o ran datblygu'r priodoleddau hyn. Er bod cyflogwyr yn rhoi mwy o werth ar sgiliau ymarferol megis 'Cymhwyso', 'Cydweithio' a 'Gweithio'n annibynnol', mae myfyrwyr yn blaenoriaethu mynegiant personol a bod yn gynhwysol. Mae'r gwahaniaeth hwn mewn blaenoriaethau wedi ei adlewyrchu ymhellach yn y ffordd y mae pob grŵp yn ystyried llwyddiant rhaglenni addysg i feithrin y priodoleddau hyn. Mae'r cyflogwyr yn ystyried bod graddedigion yn dangos cryfderau mewn meysydd megis 'Cydweithio' ac 'Ymholi', ond mae'r myfyrwyr yn teimlo nad yw'r rhain wedi eu datblygu cystal ar eu rhaglenni. I'r gwrthwyneb, mae myfyrwyr yn teimlo eu bod wedi eu paratoi'n well mewn meysydd megis 'Herio' a 'Hunan-gyfarwyddo', y sgiliau y mae cyflogwyr yn teimlo eu bod yn llai gweladwy mewn graddedigion. Mae'r gwahaniaethau hyn yn awgrymu bwlch rhwng y sgiliau y mae myfyrwyr yn credu eu bod yn eu datblygu a'r rhai y mae cyflogwyr yn eu disgwyl neu'n eu gweld, gan ddangos efallai bod angen i raglenni addysg gyfateb yn well â gofynion y gweithle.

| | **Y maint o bwysigrwydd a nodwyd** | | **Y graddedigion cyfredol / y datblygiad ar y cwrs** | |
|---|---|---|---|---|
| **Priodoledd graddedigion** | **Cyflogwyr** | **Myfyrwyr** | **Cyflogwyr** | **Myfyrwyr** |
| Cymhwyso | 3.88 | 4.81 | 5.02 | 4.98 |
| Herio | 5.15 | 5.60 | 7.33 | 5.35 |
| Cydweithio | 4.12 | 5.93 | 5.93 | 7.09 |
| Bod yn gynhwysol | 7.97 | 6.79 | 5.18 | 7.38 |
| Gweithio'n annibynnol | 6.39 | 7.21 | 7.97 | 6.76 |
| Bod yn unigryw | 7.58 | 5.91 | 4.68 | 5.59 |
| Dyfeisgarwch | 4.69 | 4.43 | 3.92 | 4.24 |
| Ymholi | 5.88 | 5.51 | 5.10 | 5.69 |
| Ysbrydoli | 6.00 | 4.92 | 4.52 | 4.64 |
| Hunan-gyfarwyddo | 3.34 | 3.90 | 5.35 | 3.28 |

Ffigur 7: Safleoedd rhestrol Cymedr y maint o bwysigrwydd a roddwyd i'r priodoleddau graddedigion, ac i ba raddau y mae cyrsiau'n datblygu'r priodoleddau hyn, o safbwyntiau'r myfyrwyr a'r cyflogwyr.

<u>Sgiliau</u>

Gwnaethpwyd dadansoddiad prawf-t o samplau annibynnol i gymharu'r sgorau a roddwyd gan fyfyrwyr a chyflogwyr ar gyfer sgiliau. Trwy ddadansoddi sgorau'r holl sgiliau, canfuwyd bod y myfyrwyr wedi rhoi sgorau llawer uwch (C = 4.07) i'w pwysigrwydd na'r cyflogwyr (C = 3.74), $t(446)=3.96$, $p<0.001$. Yn yr un modd, roedd y myfyrwyr (C = 3.73) yn credu bod y sgiliau hyn wedi eu datblygu fwy ar eu cyrsiau nag yr oedd cyflogwyr (C = 3.06) yn credu bod y sgiliau hyn yn cael eu dangos gan raddedigion, $t(434)=5.84$, $p<0.001$.


Canfu dadansoddiad prawf-t o samplau annibynnol bod y myfyriwr wedi rhoi sgorau llawer uwch i bwysigrwydd 19 o'r 37 sgìl na'r cyflogwr. Yn ddiddorol, cafodd 'Parodrwydd i ddysgu' a 'Datrys problemau' eu sgorio yn y tri uchaf gan y myfyrwyr a'r cyflogwyr fel ei gilydd, heb unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn y sgorau.




Ffigur 8: Safleoedd rhestrol Cymedr y maint o bwysigrwydd a roddwyd i'r sgiliau gan y myfyrwyr a'r cyflogwyr.

Canfu dadansoddiad prawf-t pellach o samplau annibynnol hefyd bod y myfyrwyr wedi rhoi sgorau llawer uwch i 29 o'r 37 sgìl yn y cwestiynau oedd yn asesu pa mor dda mae'r cyrsiau cyfredol yn llwyddo i gynhyrchu myfyrwyr sy'n graddio gyda'r sgiliau hyn. Un peth i'w nodi oedd bod gwahaniaeth arwyddocaol rhwng arsylwad y cyflogwr o 'Barodrwydd i ddysgu' (C = 3.73) mewn graddedigion ac i ba raddau y mae myfyrwyr yn credu bod y sgìl hwn yn cael ei ddysgu ar y cwrs (C = 4.20), $t(425)=2.93$, $p=0.004$. Yn wir, o ystyried y deg sgìl y rhoddodd y cyflogwyr y sgorau isaf iddynt am gael eu gweld mewn graddedigion, roedd pob un o'r sgiliau hyn wedi derbyn sgorau llawer uwch gan y myfyrwyr am gael eu dysgu ar eu cyrsiau: 'Gallu arwain',

'Hunanystyriaeth a hunanymwybyddiaeth feirniadol', 'Meddwl beirniadol', 'Ysgrifennu adroddiadau', 'Rhwydweithio', 'Gwytnwch', 'Rheoli heriau', 'Rheoli anawsterau a methiant', 'Rheoli prosiectau' a 'Rheoli gwrthdaro'.




Ffigur 9: Safleoedd rhestrol Cymedr y graddau y mae cyrsiau'n datblygu'r sgiliau hyn, o safbwyntiau'r myfyrwyr a'r cyflogwyr.

Mae'r dadansoddiad yn dangos gwahaniaeth clir rhwng canfyddiadau'r myfyrwyr a chanfyddiadau'r cyflogwyr am bwysigrwydd yr amrywiol sgiliau a'u datblygiad. Yn gyffredinol, mae myfyrwyr yn ystyried bod sgiliau'n bwysicach ac maen nhw'n teimlo'n fwy hyderus bod eu cyrsiau'n datblygu'r sgiliau hyn yn ddigonol o'i gymharu â chyflogwyr, sy'n tueddu i roi sgôr is i bwysigrwydd a phresenoldeb y sgiliau hyn mewn graddedigion. Mae'r bwlch hwn yn arbennig o amlwg gyda sgiliau penodol fel 'Gallu arwain', 'Meddwl beirniadol' a 'Rheoli prosiectau', lle mae myfyrwyr yn sgorio eu paratoad yn llawer uwch na'r hyn mae cyflogwyr yn ei weld yn y gweithle. Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, mae meysydd o gyfatebiaeth i'w gweld – megis y maint o bwysigrwydd a roddwyd i 'Ddatrys problemau' a 'Pharodrwydd i ddysgu' – sy'n dangos rhywfaint o elfennau cyffredin rhwng myfyrwyr a chyflogwyr. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau cyffredinol yn awgrymu diffyg cyfatebiaeth posibl rhwng paratoad academaidd a disgwyliadau'r gweithle, yn arbennig o ran datblygiad sgiliau hanfodol penodol y mae cyflogwyr yn eu gweld yn brin mewn graddedigion.

| | **Y maint o bwysigrwydd a nodwyd** | | **Y graddedigion cyfredol / y datblygiad ar y cwrs** | |
|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau** | **Cyflogwyr** | **Myfyrwyr** | **Cyflogwyr** | **Myfyrwyr** |
| Gallu addasu | 4.42 | 4.28 | 3.16 | 3.69 |
| Uchelgais | 3.25 | 3.92 | 3.40 | 3.70 |
| Bod yn drefnus | 4.15 | 4.31 | 3.22 | 4.04 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cydweithio | 4.31 | 4.11 | 3.38 | 3.49 |
| Ymrwymiad | 4.08 | 4.38 | 3.27 | 4.03 |
| Hunan-hyder a hunan-barch | 3.60 | 4.18 | 3.04 | 3.61 |
| Meddwl creadigol | 3.73 | 4.01 | 2.89 | 3.62 |
| Meddwl beirniadol | 4.10 | 4.35 | 2.82 | 4.17 |
| Chwilfrydedd | 3.81 | 3.84 | 3.29 | 3.80 |
| Sgiliau a llythrennedd technoleg ddigidol | 3.65 | 3.78 | 3.47 | 3.60 |
| Deallusrwydd emosiynol | 3.56 | 4.15 | 2.93 | 3.47 |
| Ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd | 3.34 | 3.55 | 3.59 | 3.24 |
| Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | 3.55 | 4.24 | 3.64 | 3.69 |
| Ymwybyddiaeth o foeseg ac ymrwymiad iddi | 3.69 | 4.26 | 3.36 | 3.83 |
| Meddwl arloesol | 3.81 | 3.97 | 2.91 | 3.63 |
| Gallu arwain | 2.94 | 3.70 | 2.11 | 3.04 |
| Rheoli heriau | 4.02 | 4.35 | 2.62 | 3.89 |
| Rheoli gwrthdaro | 3.35 | 4.02 | 2.39 | 3.09 |
| Rheoli anawsterau a methiant | 4.02 | 4.25 | 2.58 | 3.75 |
| Rhwydweithio | 3.04 | 3.73 | 2.71 | 3.03 |
| Sgiliau rhifedd | 3.45 | 3.43 | 3.16 | 3.28 |
| Sgiliau cyflwyno | 3.17 | 3.74 | 2.89 | 3.83 |
| Datrys problemau | 4.38 | 4.40 | 2.96 | 3.88 |
| Rheoli prosiectau | 3.15 | 3.59 | 2.50 | 3.37 |
| Prydlondeb a phresenoldeb | 3.94 | 4.34 | 3.30 | 3.97 |
| Adeiladu cydberthynas | 3.94 | 4.14 | 3.13 | 3.46 |
| Ysgrifennu adroddiadau | 3.11 | 3.87 | 2.76 | 3.97 |
| Sgiliau ymchwilio | 3.19 | 3.97 | 3.16 | 4.25 |
| Gwytnwch | 4.04 | 4.30 | 2.67 | 3.86 |
| Hunanystyriaeth a hunanymwybyddiaeth feirniadol | 3.56 | 4.24 | 2.89 | 4.05 |
| Gwybodaeth arbenigol mewn pwnc penodol | 3.72 | 4.35 | 3.16 | 4.28 |
| Gweithio mewn tîm | 4.33 | 4.13 | 3.47 | 3.49 |
| Defnyddio technegau amlgyfrwng | 2.77 | 3.47 | 3.33 | 3.31 |
| Cyfathrebu geiriol | 4.33 | 4.50 | 3.20 | 3.85 |
| Parodrwydd i ddysgu | 4.52 | 4.49 | 3.73 | 4.20 |
| Gweithio'n annibynnol | 4.26 | 4.05 | 2.96 | 4.34 |
| Cwblhau gwaith erbyn dyddiad penodol | 4.21 | 4.21 | 3.33 | 4.31 |

Ffigur 10: Sgorau Cymedr ar gyfer y maint o bwysigrwydd a roddwyd i'r sgiliau a faint y mae'r sgiliau wedi cael eu datblygu ar y cwrs cyfredol.

**Cam 2: Grwpiau ffocws gyda myfyrwyr, staff gwasanaethau proffesiynol a staff academaidd**

Cynhaliwyd cyfweliadau grwpiau ffocws â myfyrwyr, staff gwasanaethau gyrfaoedd a staff academaidd er mwyn cael dealltwriaeth ansoddol o'r dulliau o ddatblygu'r priodoleddau sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf. Roedd y cyfweliadau hyn, a hwyluswyd gan undebau myfyrwyr, yn archwilio'r gwaith o ddarganfod gweithgareddau academaidd sy'n cyfrannu at ddatblygu priodoleddau graddedigion. Roedd y grwpiau ffocws hefyd yn ystyried rhwystrau a heriau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn, gan hysbysu'r prosiect am unrhyw feysydd y gellid eu gwella.

Cynhaliwyd pob grŵp ffocws ar-lein drwy Microsoft Teams ac roeddent yn para oddeutu 50 munud. Gofynnwyd y cwestiynau gan un o'r ddau intern ar y prosiect ac roedden nhw'n cynnwys y canlynol:

1. Allwch chi ddweud wrthyf a ydych chi wedi clywed am briodoleddau graddedigion o'r blaen? Os do, ymhle glywsoch chi am briodoleddau graddedigion?
   a) Yn eich barn chi, beth mae'r term 'priodoleddau graddedigion' yn ei olygu?
3. Yn eich barn chi, beth yw'r pethau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi fwyaf: gwybodaeth a galluoedd arbenigol mewn pynciau penodol, neu briodoleddau graddedigion mwy cyffredinol?
4. Yn eich barn chi, beth yw'r priodoleddau pwysicaf i raddedigion feddu arnynt er mwyn llwyddo yn eu gyrfa?
5. Ydych chi'n meddwl bod y priodoleddau hyn gan y myfyrwyr sy'n graddio heddiw?
6. Sut mae'r myfyrwyr yn eich athrofa'n cael eu cefnogi i ddatblygu'r priodoleddau graddedigion hyn?
7. Beth yw'r prif bethau sy'n herio neu'n rhwystro athrofeydd rhag helpu myfyrwyr i ddatblygu'r priodoleddau graddedigion hyn?
8. Yn eich barn chi, beth allai gael ei wneud i helpu myfyrwyr i ddatblygu'r priodoleddau graddedigion hyn?

Wedi i'r grŵp ffocws ddod i ben, cafodd y trawsgrifiad a gynhyrchwyd yn awtomatig ei adolygu'n ffisegol yn erbyn y recordiad fideo i weld a oedd yn gywir, a chafodd ei wneud yn ddienw fel ag yr oedd yn briodol. Daethpwyd â thrawsgrifiadau pob grŵp o gyfranogwyr at ei gilydd o'r gwahanol athrofeydd i wneud dadansoddiad thematig. Gwnaeth yr interniaid ddadansoddiad cychwynnol ac yna cawsant eu hadolygu gan y prif ymchwilydd. Gwerthuswyd y themâu a'r is-themâu y cytunwyd arnynt i sicrhau bod yr ansawdd yn briodol gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (ChatGPT). Mae'r rhestr derfynol o themâu ac is-themâu, gyda dyfyniadau enghreifftiol, wedi ei hamlinellu yn yr adrannau a ganlyn. Ar ddiwedd pob adran, mae tair strategaeth i wella hyfforddiant mewn priodoleddau graddedigion, a luniwyd ar sail adborth gan y cyfranogwyr.

**Grwpiau ffocws gyda staff academaidd**

Pedwar grŵp ffocws oedd yn cynnwys 13 o staff academaidd: Prifysgol Aberystwyth (4 cyfranogwr), Prifysgol Bangor (5 cyfranogwr), Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (1 cyfranogwr) a Choleg Sir Benfro (3 chyfranogwr). Trwy ddadansoddi'r trawsgrifiadau hyn, canfuwyd y themâu a'r is-themâu a ganlyn:

1. Pwysigrwydd priodoleddau graddedigion
   a) Cymharu sgiliau cyffredinol â sgiliau penodol:
      - "Rwy'n meddwl bod cyflogwyr yn chwilio am sgiliau generig y gellir eu cymhwyso i'r swydd."
      - "Mae'n dibynnu ar y sector a'r swydd benodol oherwydd, os yw'r swydd yn dechnegol mae angen y sgiliau technegol hynny arnoch fwy nag y mae angen priodoleddau cyffredinol arnoch. Wel, mae'r priodoleddau hynny'n hanfodol wrth gwrs ond… ar gyfer y rhan fwyaf o rolau, dw i'n meddwl bod y priodoleddau cyffredinol yn bwysicach i gyflogwyr mae'n debyg."

   b) Datblygu drwy'r cwricwlwm
      - "Llunnir ein cyrsiau gradd yn ofalus i gefnogi'r myfyrwyr i ddatblygu annibyniaeth… erbyn y semester olaf yn y drydedd flwyddyn… maent yn cynnal gŵyl hefyd. Felly, rydym yn ceisio cefnogi ein myfyrwyr i fod yn feddylwyr a gwneuthurwyr hyddysg."
      - "Rydym yn dadlau'n frwd dros gael o leiaf 40 awr o brofiad lleoliad gwaith yn rhan o'n modiwlau craidd, sy'n berthnasol i bob semester."
      - "Rydym yn arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o gynnwys cyflogwyr mewn gweithgareddau cwricwlaidd… gofyn i gyflogwyr ddod i mewn i ddarparu astudiaeth achos neu rywbeth tebyg sy'n berthnasol i fodiwl penodol."
      - "Byddai mwy o ddysgu drwy brofiad, rhagor o ddysgu drwy wneud prosiectau hefyd, yn helpu i ddatblygu rhai o'r priodoleddau hyn."
      - "Rydym wedi dechrau gwneud hyn yn ein cynllun gradd drwy ddod â'n hymgynghorydd gyrfaoedd i mewn i wneud asesiad dynamig yn yr ystafell… mae'r ymgynghorydd gyrfaoedd yn gwylio, arsylwi ac yna'n cymryd 15 munud ar ddiwedd y sesiwn i roi adborth ar y sgiliau maen nhw'n eu gweld ar waith."
      - "Os bydd [y wybodaeth] yn dod gan gyflogwyr neu gan berson graddedig arall sydd wedi mynd drwy'r broses, cael swydd a dychwelyd… mae angen iddyn nhw ei weld gan rywun arall heblaw eu tiwtoriaid yn unig."

   c) Y sgiliau allweddol
      - "Mae sgiliau cyfathrebu a'r gallu i weithio gyda phobl eraill yn hollbwysig."
      - "Mae cyfathrebu'n hanfodol er budd gofynion y swydd, beth bynnag yw'r rheiny, p'un a yw'n ysgrifennu adroddiadau neu'n ymgysylltu â chymunedau neu randdeiliaid."
      - "Y gallu i ddadansoddi'n effeithiol ac ymwreiddio fframweithiau polisi neu arferion gorau i mewn i'w cyflogaeth benodol ar ôl y brifysgol."
      - "Mae gweithio mewn tîm a sgiliau gwybyddol yn arbennig o bwysig i'n graddedigion."
      - "Efallai y bydd gweithio gyda phobl eraill neu gydweithio â phobl eraill yn sgìl pwysig arall."
      - "Mae sgiliau cryf mewn hunanreoli a dadansoddi beirniadol yn bwysig i wneud prosiectau ymchwil mawrion."
      - "Ymdrin â phob math o bethau, o newidiadau a thrafferthion a heriau."

- "Mae'r gallu i reoli gwrthdaro a'r gallu i wrando ar sylwadau pobl eraill yn hynod o bwysig."

2. Heriau wrth geisio datblygu priodoleddau graddedigion
   a) Ymgysylltiad myfyrwyr:
      - "Mae diffyg ymgysylltiad gan rai myfyrwyr ac, mewn sefyllfa felly, ni allwn eu gorfodi i wneud pethau… mae'n anodd iawn cael myfyrwyr i ddod draw i wneud pethau."
      - "Mae'n arbennig o heriol ennyn diddordeb ein myfyrwyr yn yr ystafell seminar. [Yn] ein gwaith ni, mae'r cyfraddau presenoldeb yn is na 50% yn aml iawn."
      - "Gallem dderbyn £5000 a dod â siaradwyr i mewn sy'n bobl flaenllaw yn y maes, ac mae'n debyg na fyddai'r myfyrwyr yn dod beth bynnag… efallai na fyddai mwy na 10 o fyfyrwyr yn dod, os hynny."

   b) Cyfyngiadau ar adnoddau:
      - "Sail y rhwystrau yn y bon yw diffyg amser, lle ac adnoddau i'r bobl yn y system wneud y newidiadau ac addasu i'r cyd-destun cyfredol a'r heriau y maent yn eu hwynebu."
      - "Mae'n anodd datblygu rhai o'r syniadau a'r mentrau hyn heb yr arian angenrheidiol i wneud y peth yn dda oherwydd, yn fy marn i mae problem go iawn… gyda gwahodd siaradwyr gwadd i mewn a pheidio talu amdanyn nhw."

3. Newidiadau diwylliannol
   a) Newidiadau rhwng cenedlaethau
      - "Nawr mae gan raddedigion ddisgwyliadau gwahanol am y farchnad waith. Dydyn nhw ddim o anghenraid eisiau gweithio o 9 tan 5 gyda'r oriau ychwanegol. Mae eu disgwyliadau'n uwch o ran cyflog a'r swydd y byddant yn mynd i mewn iddi wedi iddynt ennill eu gradd."
      - "I lawer o bobl ifanc, mae llai o fodelau rôl sy'n dangos priodoleddau cadarnhaol. Efallai fod pobl ifanc yn rhoi llai o bwys ar fyd gwaith a'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith."

   c) Newidiadau a gafwyd yn dilyn y pandemig
      - "Mae sgiliau cyfathrebu a'r gallu i weithio gyda phobl eraill yn hollbwysig ac weithiau rwy'n meddwl bod hyn yn dod yn fwy o her i'n myfyrwyr sy'n dod drwy'r cyfnod ar ôl y pandemig COVID-19."
      - "Dw i'n credu bod gan nifer o fyfyrwyr sgiliau llawer iawn gwell nag y maen nhw'n sylweddoli, ac efallai fod hynny'n rhywbeth y gallem edrych ychydig bach mwy arno, a fyddai wedyn yn helpu i gynyddu eu hunan-hyder a'u hannibyniaeth."

   d) Newidiadau cyfundrefnol
      - "Dw i'n teimlo bod syniad cynyddol y dylai ffurflenni adborth fod yn ddienw, a dw i ddim yn meddwl bod hynny'n ddefnyddiol i baratoi myfyrwyr sydd â galluoedd sylfaenol i allu mynd allan i'r gweithle."
      - "Rydym wedi troi'n ôl i ryw raddau at ddull y ffatri … nid archfarchnad ydyn ni. Dydyn ni ddim yn cyflwyno cynigion i bobl sy'n eu galluogi i symud ymlaen yn gyflym."

Mae'r themâu a'r is-themâu hyn yn tynnu sylw at y meysydd allweddol a drafodwyd yn y grwpiau ffocws ynghylch datblygiad a phwysigrwydd y priodoleddau graddedigion, yr heriau a wynebir a'r strategaethau ar gyfer cefnogi myfyrwyr i ddatblygu'r priodoleddau hyn.

Isod mae cwmwl geiriau sy'n dangos y geiriau a ddefnyddiwyd amlaf yn yr ymatebion Saesneg (ac eithrio geiriau gramadegol amherthnasol a thermau digyswllt):




Trwy wneud rhagor o waith dadansoddi, canfuwyd tair strategaeth i ddatblygu priodoleddau graddedigion ymhellach, o safbwynt yr academyddion sy'n addysgu mewn addysg uwch:

### 1: Integreiddio priodoleddau graddedigion yn y cwricwlwm craidd

*"Mae ymwreiddio'r [priodoleddau] yn y cwricwlwm yn rhywbeth yr ydym yn ei wneud yn barod, ond mae'n bosib gwneud mwy o hynny wrth gwrs."*

Dylai sefydliadau ymwreiddio priodoleddau graddedigion yn uniongyrchol yn y cwricwlwm craidd yn hytrach na'u trin nhw fel sgiliau ategol. Gellir cyflawni hyn drwy gyfateb deilliannau dysgu ac asesiadau â datblygiad y priodoleddau hyn. Trwy wneud hynny, bydd cyfleoedd cyson i'r myfyrwyr ddatblygu'r sgiliau hyn drwy gydol eu taith academaidd.

- Datblygu modiwlau sy'n canolbwyntio'n glir ar briodoleddau graddedigion allweddol.
- Sicrhau bod asesiadau'n gofyn i'r myfyrwyr ddangos y priodoleddau hyn mewn ffyrdd ymarferol a pherthnasol.
- Annog y cyfadrannau i lunio cynnwys cyrsiau sy'n integreiddio gwybodaeth arbenigol a sgiliau hanfodol fel ei gilydd.

### 2: Gwella ymgysylltiad myfyrwyr drwy gynnig profiadau ymarferol

*"[Rydym yn] cydweithio ag amrywiaeth o ddarpar gyflogwyr yn y gymuned i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni'r priodoleddau hynny."*

Dylai sefydliadau greu rhagor o gyfleoedd i gael profiadau ymarferol, megis interniaethau, lleoliadau gwaith, a phrosiectau sy'n ymwneud â'r byd gwaith go iawn. Mae'r profiadau hyn nid yn unig yn helpu myfyrwyr i gymhwyso eu gwybodaeth ddamcaniaethol, maent hefyd yn datblygu priodoleddau graddedigion anhepgor megis sgiliau cyfathrebu, gweithio mewn tîm a datrys problemau.

- Sefydlu partneriaethau â'r diwydiant a sefydliadau cymunedol i ddarparu cyfleoedd lleoliad gwaith.
- Cynnwys dysgu ar sail prosiectau ac astudiaethau achos yn y cwricwlwm.
- Hwyluso gweithdai a seminarau gyda siaradwyr gwadd o amrywiol feysydd proffesiynol.

### 3: Meithrin amgylchedd dysgu myfyriol a chefnogol

*"Annog myfyrwyr i fyfyrio ar y sgiliau y maent wedi'u datblygu… os nad ydynt yn mynd ati'n ymwybodol i fyfyrio ar y peth, mae'n debyg nad ydyn nhw'n cymryd llawer o sylw ohono."*

Mae annog myfyrwyr i fyfyrio ar eu profiadau dysgu a darparu systemau cymorth cadarn yn gallu gwella datblygiad y priodoleddau graddedigion yn sylweddol. Mae myfyrio'n helpu myfyrwyr i gydnabod a disgrifio'r sgiliau sydd ganddynt, tra bo systemau cymorth yn sicrhau bod yr adnoddau a'r arweiniad angenrheidiol ar gael iddyn nhw.

- Gweithredu asesiadau myfyriol, megis portffolios neu ddyddiaduron, lle gall y myfyrwyr ddogfennu a dadansoddi datblygiad eu sgiliau.
- Darparu cymorth parhaus drwy wasanaethau gyrfaoedd, mentora a chynghori academaidd.
- Hwyluso sesiynau dysgu ac adborth gan gymheiriaid i adeiladu cymuned gefnogol.

**Grwpiau ffocws gyda staff gwasanaethau proffesiynol**

Tri grŵp ffocws oedd yn cynnwys 11 o staff gwasanaethau proffesiynol: Prifysgol Aberystwyth (4 cyfranogwr), Prifysgol Bangor (5 cyfranogwr) a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (2 gyfranogwr). Daeth y staff amrywiol o'r gwasanaethau gweinyddu myfyrwyr a'r gwasanaethau gyrfaoedd. Trwy ddadansoddi'r trawsgrifiadau hyn, canfuwyd y themâu a'r is-themâu a ganlyn:

1. Y priodoleddau graddedigion hanfodol
    a) Gallu addasu
        - "Mae angen i chi allu addasu i amrywiol amgylcheddau gwaith ac mae'r syniad o gael swydd am oes wedi hen fynd heibio erbyn hyn, i chi ac i unrhyw un arall."
        - "Y gallu i addasu feddyliwn i. Mae'n debyg eu bod nhw'n gallu addasu ychydig bach yn well nawr – efallai am fod pethau'n wahanol heddiw i sefyllfa fy nghenhedlaeth i."
        - "Yn gyffredinol, ac ar hyn o bryd, mae'n debyg mai'r gallu i addasu yw un o'r priodoleddau pwysicaf. Am bob math o resymau – oherwydd deallusrwydd artiffisial, oherwydd bod pobl yn gweithio o bell."
    b) Gwytnwch
        - "Doedd gwytnwch ddim yn air a fyddai'n rhan o eirfa neu derminoleg cyflogwyr ers talwm, wyddoch chi, fyddech chi byth yn ei weld ar ddisgrifiad swydd, er enghraifft."
        - "Ac, ie, dyna sy'n adeiladu gwytnwch oherwydd dydych chi ddim yn magu gwytnwch os nad ydych chi'n methu."
    c) Sgiliau cyfathrebu
        - "Pethau syml fel hynny y bydd cyflogwyr eu heisiau. Pethau fel – allwch chi fynd i lawr i'r lle a lle a gofyn iddynt am beth a pheth?"
        - "Rydw i'n synnu bob amser mor wych maen nhw'n perfformio mewn cyfweliadau a pha mor dda maen nhw'n cyfathrebu ac yn disgrifio eu sgiliau."
2. Rhwystrau i ddatblygu priodoleddau graddedigion
    a) Diffyg profiad yn y byd gwaith go iawn
        - "Gallant fynd drwy'r tair blynedd i gyd heb gael fawr ddim profiad heblaw yr un hen brofiad o fynd i ddarlithoedd."
        - "Tra byddent yn y brifysgol, dim ond y profiad academaidd y mae llawer o fyfyrwyr yn ei gael. Does ganddyn nhw ddim swyddi rhan amser er enghraifft."
    b) Amgylchedd addysgol gor-gefnogol
        - "Mae'r amgylchedd a ddarparwn yn y brifysgol yn feithringar a chefnogol iawn, ond ar adegau mae'n ormod."
        - "Dydyn ni ddim yn gadael i'n myfyrwyr fethu. Ac, i ddweud y gwir, mae'n hen ystrydeb, rydych yn dysgu mwy o fethu nag yr ydych o lwyddo."
    c) Ffafrio dulliau cyfathrebu digidol
        - "Byddai'n well gan fy mab anfon e-bost at rywun na'u ffonio nhw."
        - "Mae popeth yn cael ei wneud ar-lein heb orfod cael y rhyngweithio dynol hwnnw."
        - "Mae'n well gan rai cenedlaethau siarad â rhywun – dyna sy'n well gan fy nghenhedlaeth i. Ond mae'n well gan y genhedlaeth iau beidio siarad â rhywun."

3. Pontio'r bwlch rhwng addysg a byd gwaith
   a) Cyfateb terminoleg academaidd â therminoleg ddiwydiannol
      - "Mae'n hanfodol ein bod ni'n helpu ein myfyrwyr a'n graddedigion i weld y cysylltiad rhwng y derminoleg, a deall bod y pethau y maen nhw'n eu hadnabod fel priodoleddau graddedigion yn trosi i'r nodweddion y maen nhw'n eu gweld mewn disgrifiad swydd."
      - "Efallai ein bod yn sôn am y gallu i 'ymholi' fel priodoledd sydd gan raddedigion o Brifysgol Bangor. Mae hyn yn gwneud synnwyr yn y byd academaidd, ond mae'n bur annhebyg y byddwch yn gweld y gair 'ymholi' pan fyddwch yn edrych ar ddisgrifiad swydd."
   b) Disgwyliadau cyflogwyr o'u cymharu â pharodrwydd graddedigion
      - "Rydym yn siarad â chwmnïau efallai, wyddoch chi, ac maen nhw'n dweud wrthym fod [graddedigion] yn dod allan a dydyn nhw ddim yn barod ar gyfer swydd."
      - "Yr adborth a gawn ni drwy siarad â phobl o'r tu allan yw 'y priodoleddau y byddwn i'n chwilio amdanynt mewn person yw eu bod nhw'n gallu gweithio yn rhan o dîm, a'u bod nhw'n gallu gweithio'n annibynnol'."
   c) Datblygu meddylfryd twf
      - "Datrys problemau'n greadigol ond pethau fel y gallu i feddwl y tu allan i'r bocs, ac am yr un rhesymau."
      - "Mae angen iddyn nhw allu ymdopi â methu, neu hyd yn oed os nad ydyn nhw'n cael y swydd maen nhw wedi gwneud cais amdani, eu bod nhw'n gallu ymdopi."

Mae'r dyfyniadau a'r is-themâu hyn yn dangos yr angen hanfodol am gyfateb deilliannau addysg â disgwyliadau'r diwydiant, deall y bylchau ym mharodrwydd y graddedigion sydd wedi eu nodi gan y cyflogwyr, a meithrin meddylfryd twf mewn myfyrwyr er mwyn eu paratoi'n well ar gyfer heriau'r gweithlu.

Isod mae cwmwl geiriau sy'n dangos y geiriau a ddefnyddiwyd amlaf yn yr ymatebion Saesneg (ac eithrio geiriau gramadegol amherthnasol a thermau digyswllt):



Trwy wneud rhagor o waith dadansoddi, canfuwyd tair strategaeth i ddatblygu priodoleddau graddedigion ymhellach, o safbwynt staff gwasanaethau proffesiynol sy'n addysgu myfyrwyr addysg uwch:

### 1: Meithrin a gwerthfawrogi profiad ymarferol drwy wneud gwaith a gwirfoddoli

*"Mae annog myfyrwyr i ymgymryd â gwaith a chael y strwythur hwnnw yn eu bywyd o fynd i'r gwaith, mae hynny'n hynod o bwysig yn fy meddwl i."*

Dylai sefydliadau integreiddio rhagor o brofiadau ymarferol yn eu cwricwla drwy annog eu myfyrwyr i ymgymryd â lleoliadau gwaith, interniaethau, a chyfleoedd i wirfoddoli. Gall y dull hwn helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau hanfodol megis cyfathrebu, gweithio mewn tîm a gallu addasu, sef sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi'n fawr.

- Gweithio mewn partneriaeth â busnesau lleol, sefydliadau dielw a sefydliadau cymunedol i greu rhagor o gyfleoedd i fyfyrwyr gael profiad ymarferol.
- Cynnwys modiwlau ymarferol gorfodol neu interniaethau mewn rhaglenni gradd.
- Strwythuro rhaglenni i alluogi ac annog myfyrwyr i gael profiad gwaith ochr yn ochr ag astudio.

### 2: Pontio'r bwlch rhwng dysgu academaidd a gofynion y diwydiant

*"Mae'n hanfodol ein bod ni'n helpu ein myfyrwyr a'n graddedigion i weld y cysylltiad rhwng y derminoleg, a deall bod y pethau y maen nhw'n eu hadnabod fel priodoleddau graddedigion yn trosi i'r nodweddion y maen nhw'n eu gweld mewn disgrifiad swydd."*

Yn aml iawn mae diffyg cysylltiad rhwng y derminoleg a'r sgiliau sydd wedi eu pwysleisio mewn lleoliadau academaidd â'r rhai sy'n ofynnol yn y gweithle. Mae angen i sefydliadau addysg uwch gyfateb eu haddysgu a'u hiaith â disgwyliadau'r diwydiant er mwyn paratoi myfyrwyr yn well ar gyfer byd gwaith.

- Gweithio'n agos â phartneriaid yn y diwydiant i sicrhau bod y sgiliau a'r priodoleddau a addysgir ar raglenni academaidd yn cyfateb â'r hyn y mae cyflogwyr yn chwilio amdano.
- Rhoi esiamplau clir i'r myfyrwyr o'r ffordd y mae sgiliau academaidd yn trosi'n sgiliau mewn swyddi a chynnwys terminoleg sy'n berthnasol i'r diwydiant yn eu deunyddiau addysgu.

### 3: Hybu 'Gwytnwch', 'Gallu addasu' a 'Meddylfryd twf'

*"Rwy'n meddwl mai gwytnwch yw'r gallu sy'n dod i'r amlwg fwyaf yn awr ym meddylfryd y cyflogwyr. A dyma'r un heriol mewn pobl ifanc ar hyn o bryd."*

Mae gwytnwch a'r gallu i addasu i amgylcheddau newidiol yn briodoleddau anhepgor i raddedigion. Dylai sefydliadau addysg uwch ganolbwyntio ar ddatblygu'r nodweddion hyn drwy greu amgylcheddau dysgu heriol a chefnogol sy'n annog myfyrwyr i ddysgu o fethiant a chroesawu heriau.

- Cynnwys hyfforddiant gwytnwch mewn cwricwla.
- Cynnig gweithdai ar ddatblygu meddylfryd twf.
- Llunio asesiadau sy'n herio'r myfyrwyr i ymdrin â sefyllfaoedd nad ydynt yn gwbl gysurus ynddynt.
- Rhoi cyfleoedd i'r myfyrwyr fyfyrio ar eu profiadau a dysgu o anawsterau.

**Grwpiau ffocws gyda myfyrwyr**

Dau grŵp ffocws gyda 6 myfyriwr: Prifysgol Aberystwyth (4 cyfranogwr) a Choleg Sir Benfro (2 gyfranogwr). Roedd grwpiau ffocws yn cynnwys myfyrwyr ar bob lefel o addysg ôl-orfodol. Trwy ddadansoddi'r trawsgrifiadau hyn, canfuwyd y themâu a'r is-themâu a ganlyn:

1. Deall priodoleddau graddedigion a pha mor bwysig ydynt
   a) Diffiniad ac ymwybyddiaeth
      - "Priodoleddau graddedigion yw'r nodweddion a'r sgiliau lefel uchel y mae myfyrwyr yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol. Er enghraifft, y gallu i reoli eich gwaith yn annibynnol, dangos gwytnwch wrth wynebu heriau, cydweithio â phobl eraill, neu feddwl y tu allan i'r bocs."
      - "Dw i ddim yn meddwl mod i wedi clywed amdanyn nhw o'r blaen. Dw i'n meddwl mod i'n deall beth mae'n olygu ond ie, dydw innau'n benodol ddim wedi clywed amdanyn nhw o'r blaen."

   b) Cymharu sgiliau cyffredinol â sgiliau arbenigol
      - "Dw i'n meddwl ei fod yn dibynnu ar y cyflogwr. Ar gyfer gwaith cyffredinol mewn swyddfa, mae'r sgiliau mwy cyffredinol sy'n gwneud rhywun yn gymeriad crwn yn sgiliau defnyddiol, ond ar gyfer swyddi arbenigol fel cyfrifydd, mae gwybodaeth arbenigol yn y pwnc yn hanfodol."
      - "Mae'n dibynnu ar y math o swydd. I gyfreithiwr, mae priodoleddau graddedigion cyffredinol yn bwysig am fod yn rhaid iddyn nhw weithio'n annibynnol a bod yn gymeriad gwydn yn y llys, ond mae angen iddyn nhw hefyd fod â gwybodaeth arbenigol."

   c) Y priodoleddau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi
      - "Mae'n debyg bod gwytnwch yn un pwysig iawn, ac mae'n briodoledd cyffredinol iawn hefyd. Yn arbennig ar y dechrau pan fyddwch yn chwilio am swydd, mae'n debyg eich bod yn mynd i wynebu llawer o wrthodiad, felly mae'n rhaid i chi ddal i fynd, dal i wneud cais am y swyddi hynny."
      - "Mae'r gallu i addasu yn hanfodol hefyd. Pan fyddwn ni'n gorffen yn y brifysgol, mae'n sicr y bydd llawer o swyddi y byddwn yn edrych arnynt ac yn meddwl 'Wnes i erioed feddwl am y swydd yma' ond rydyn ni'n rhoi cynnig arni beth bynnag. Felly mae bod yn barod i addasu wrth edrych ar y swyddi rydych eu heisiau yn bwysig iawn."

2. Heriau wrth geisio datblygu priodoleddau graddedigion
   a) Ymgysylltiad a chyfranogaeth
      - "Os nac yw'r myfyrwyr yn ymgysylltu â'r holl adnoddau a chyfleoedd y mae'r brifysgol yn eu rhoi iddynt, does dim y gallwch ei wneud mewn gwirionedd i ddenu rhywun i wneud cais am leoliad neu beth bynnag. Felly, dw i'n meddwl yn sicr mai ymgysylltiad yw'r her fwyaf."
      - "Dydy myfyrwyr ddim yn gwybod bob amser at bwy i estyn allan, neu dydyn nhw ddim yn teimlo'n gyfforddus yn estyn allan atynt. Os ydyn nhw'n gwybod pwy yw eu tiwtor personol, dylid bod cwpwl o wahanol bobl ar gael i roi cymorth iddynt."

   b) Lles ac iechyd meddwl
      - "Mae gennych fyfyrwyr sydd efallai'n delio â gorbryder cymdeithasol neu sy'n ei chael hi'n anodd iawn bod mewn sefyllfaoedd newydd. Gall gwasanaethau lles helpu'n fawr gyda hynny, ond mae'n dal yn mynd i fod yn heriol iddyn nhw."

- "Rwyf wedi clywed straeon erchyll gan rai gwasanaethau iechyd meddwl am nad yw staff wedi eu hyfforddi'n ddigonol efallai, neu does dim digon o staff i ymdrin â'r sefyllfa'n iawn."

c) Rhwystrau strwythurol ac ariannol

- "Mae llawer o addysg yn arwain at arholiad terfynol sy'n annog pobl i weithio ar eu pennau eu hunain. Nid yw'n annog pobl i weithio mewn tîm neu grŵp, sy'n sgiliau hanfodol."
- "Mae problemau ariannol yn rhwystr mawr. Er enghraifft, mae'n amhosibl cael profiad o waith gwirfoddol a fydd yn gwella eu priodoleddau os nad yw'r myfyriwr yn gallu fforddio gweithio am ddim."

3. Dulliau cefnogi

a) Cymorth a gwasanaethau sefydliadol

- "Mae'r gwasanaeth gyrfaoedd yn cefnogi myfyrwyr nid yn unig gyda chynlluniau graddedigion ond hefyd gyda swyddi rhan amser a lleoliadau gwaith yn ystod y flwyddyn, sy'n helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, gweithio mewn tîm a gallu arwain."
- "Mae'r gwasanaeth lles a'r mentoriaid arbenigol yn hanfodol i fyfyrwyr sy'n cael trafferth gyda'u gwersi. Maent yn darparu cymorth un-i-un, sy'n fwy personol i'r myfyriwr ac sy'n fwy buddiol."

b) Integreiddio priodoleddau yn y cwricwlwm

- "Mae gan fodiwlau sy'n gofyn i'r myfyrwyr lunio curriculum vitae, gwefan artist, a chais ffug am swydd yn gallu bod yn ddefnyddiol iawn. Dylid integreiddio'r rhain yn y cwricwlwm yn ehangach."
- "Mae angen integreiddio gwasanaethau cyflogadwyedd a chyrsiau academaidd yn well. Er enghraifft, dylai sesiynau tiwtora mewn pynciau fel daearyddiaeth ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd hefyd."

c) Systemau adborth a monitro

- "Efallai y byddai'n ddefnyddiol cael system fonitro reit o ddechrau'r cwrs lle gall myfyrwyr olrhain datblygiad eu priodoleddau. Bydd y myfyrwyr yn gwybod wedyn pa sgiliau y dylent eu datblygu."
- "Gallai monitro presenoldeb mewn rhyw ffordd neu'i gilydd fod yn ddefnyddiol. Mae e-bost bach sy'n dweud 'Hei, wyt ti'n iawn? Beth sy'n digwydd?' yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr."

Mae'r themâu a'r is-themâu hyn yn tynnu sylw at y prif bwyntiau a'r amrywiol safbwyntiau a rannwyd gan y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws.

Isod mae cwmwl geiriau sy'n dangos y geiriau a ddefnyddiwyd amlaf yn yr ymatebion Saesneg (ac eithrio geiriau gramadegol amherthnasol a thermau digyswllt):




Trwy wneud rhagor o waith dadansoddi, canfuwyd tair strategaeth i ddatblygu priodoleddau graddedigion ymhellach, o safbwynt myfyrwyr addysg uwch:

**1: Gwella ymgysylltiad â chyfleoedd dysgu ymarferol ac integredig**

*"Mae gan fodiwlau sy'n gofyn i'r myfyrwyr lunio curriculum vitae, gwefan artist, a chais ffug am swydd yn gallu bod yn ddefnyddiol iawn. Dylid integreiddio'r rhain yn y cwricwlwm yn ehangach."*

Dylai athrofeydd integreiddio cyfleoedd dysgu ymarferol yn y cwricwlwm sy'n clymu'n uniongyrchol â datblygu priodoleddau graddedigion. Mae hyn yn cynnwys integreiddio modiwlau sy'n ymdrin â gwneud ceisiadau yn y byd go iawn, megis llunio curricula vitae, interniaethau a cheisiadau ffug am swyddi. Yn ogystal, mae annog y myfyrwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgwricwlaidd a darparu llwybrau clir iddynt i weld gwerth y profiadau hyn yn eu datblygiad gyrfaol yn gallu cynyddu ymgysylltiad.

- Cyflwyno modiwlau sy'n canolbwyntio ar sgiliau ymarferol, megis ysgrifennu curricula vitae a cheisiadau ffug am swyddi.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gweithgareddau allgwricwlaidd i ddatblygu sgiliau.
- Darparu rhagor o gyfleoedd dysgu yn y byd gwaith go iawn, megis interniaethau a dysgu ar sail prosiectau, fel elfennau integredig o'r cwricwlwm academaidd.
- Darparu opsiynau dosbarth hybrid i gynyddu hygyrchedd.
- Sicrhau bod amserlenni gwersi'n galluogi i fyfyrwyr weithio a manteisio ar gyfleoedd eraill i gael profiadau dysgu allanol.

**2: Gwella systemau cymorth ar gyfer lles ac ymgysylltiad myfyrwyr**

*"Os nac yw'r myfyrwyr yn ymgysylltu â'r holl adnoddau a chyfleoedd y mae'r brifysgol yn eu rhoi iddynt, does dim y gallwch ei wneud mewn gwirionedd i ddenu rhywun i wneud cais am leoliad neu beth bynnag. Felly, dw i'n meddwl yn sicr mai ymgysylltiad yw'r her fwyaf."*

Mae'n rhaid i athrofeydd flaenoriaethu gwasanaethau lles a chreu systemau cymorth cadarn i fynd i'r afael â rhwystrau megis problemau iechyd meddwl, gorbryder cymdeithasol a straen ariannol.

Mae sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn ac yn gallu eu cyrchu'n hawdd yn gallu eu helpu nhw i oresgyn heriau personol sy'n rhwystro eu twf academaidd a phersonol. Mae mesurau rhagweithiol, fel ymyrraeth gynnar a gwiriad lles rheolaidd, yn gallu chwarae rôl hanfodol hefyd o ran cefnogi datblygiad y myfyrwyr.

- Gwella gwasanaethau lles ac iechyd meddwl gydag ariannu digonol a staff hyfforddedig.
- Gwneud gwiriadau lles rheolaidd gyda myfyrwyr i fonitro presenoldeb ac ymgysylltiad.
- Creu amgylchedd cefnogol sy'n mynd i'r afael â rhwystrau ariannol a chymdeithasol drwy gynnig ysgoloriaethau, opsiynau lleoedd byw fforddiadwy a rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid.

### 3: Meithrin cydweithio rhwng gwasanaethau academaidd a gwasanaethau gyrfaoedd

*"Mae angen integreiddio gwasanaethau cyflogadwyedd a chyrsiau academaidd yn well. Er enghraifft, dylai sesiynau tiwtora mewn pynciau fel daearyddiaeth ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd hefyd."*

Er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn graddio gyda'r priodoleddau gofynnol, mae'n rhaid i adrannau academaidd a gwasanaethau gyrfaoedd gydweithio'n gryfach. Gellir cyflawni hyn drwy ymwreiddio sgiliau cyflogadwyedd mewn rhaglenni academaidd a sicrhau bod gwasanaethau gyrfaoedd yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o lunio'r cwricwlwm. Yn ogystal, mae'n hanfodol rhoi arweiniad clir a chyson i fyfyrwyr ar sut i fanteisio i'r eithaf ar y gwasanaethau gyrfaoedd drwy gydol eu taith academaidd.

- Integreiddio gwasanaethau gyrfaoedd mewn rhaglenni academaidd drwy gynnal gweithdai ar y cyd, darlithoedd gwadd, a modiwlau sy'n ymwneud yn benodol â gyrfaoedd.
- Sefydlu system fonitro i olrhain datblygiad priodoleddau graddedigion a rhoi adborth.
- Hysbysu a diweddaru'r myfyrwyr yn rheolaidd am y cyfleusterau, yr adnoddau a'r gwasanaethau sydd ar gael iddyn nhw, er mwyn sicrhau y defnyddir y rhain yn effeithiol.

## Cam 3: Digwyddiad lledaenu

Ar 1 Gorffennaf 2024, cawsom ddigwyddiad cyflogadwyedd yn Pontio, y ganolfan gelfyddydau ac arloesi ym Mhrifysgol Bangor, gyda'r nod o rannu a thrafod canfyddiadau ein prosiect a ariennir gan QAA . Daeth 19 o gyfranogwyr i'r digwyddiad, yn cynnwys cynrychiolwyr o ddwy o'r athrofeydd oedd yn cydweithio. Er nad oedd athrofeydd eraill yn gallu mynychu'r digwyddiad am fod cyfarfodydd diwedd blwyddyn y byrddau arholi'n digwydd ar yr un pryd, gwelwyd amrywiaeth eang yno o arweinwyr academaidd o faes cyflogadwyedd, staff gwasanaethau gyrfaoedd, ac aelodau uwch o'r grŵp gweithredol, megis Deoniaid, Dirprwy Is-Ganghellor Cysylltiol a Dirprwy Is-Ganghellor. Sicrhaodd hyn bod yno gynrychiolaeth eang o'r gwasanaethau academaidd a phroffesiynol i gyd a bod pobl o amrywiol lefelau yno. Yn ogystal, darparwyd cynrychiolaeth werthfawr o'r corff myfyrwyr gan y ddau fyfyriwr oedd yn cymryd rhan yn y prosiect fel interniaid.

Cychwynnodd y digwyddiad am hanner dydd gyda chroeso a chyflwyniadau, gan roi naws gynnes i'r diwrnod. Yna, cyflwynodd Fay Short y Prosiect Priodoleddau Graddedigion, gan amlinellu ei strwythur a'i amcanion. Cymerodd y cyfranogwyr ran mewn sesiwn ryngweithiol lle'r oedden nhw'n rhagweld canfyddiadau'r prosiect cyn iddyn nhw gael eu datgelu. Hwyluswyd hyn drwy weithgareddau grwpiau bychain oedd yn cynnwys cwblhau ymarferion graddio o'r holiaduron. Roedd y gweithgaredd hwn yn hanfodol i roi cyfle i'r cyfranogwyr fyfyrio ar eu disgwyliadau eu hunain ac ymdrin ag unrhyw gamsyniadau am briodoleddau graddedigion. Ar ôl egwyl ginio a rhwydweithio, daeth y cyfranogwyr yn ôl at ei gilydd ar gyfer gweithgaredd oedd yn canolbwyntio ar ganfod ffyrdd effeithiol o integreiddio priodoleddau graddedigion yn y cwricwlwm. Yn dilyn y sesiwn hon, cynhaliwyd trafodaeth am gyfeiriad y prosiect yn y dyfodol, lle cydweithiodd y cyfranogwyr i benderfynu beth fyddai'r camau nesaf a chytuno ar gynlluniau y gellid gweithredu arnynt ar gyfer y dyfodol. Daeth y prynhawn i ben gyda the, coffi a rhagor o gyfleoedd i rwydweithio.

Prif ganlyniad y digwyddiad oedd cytundeb gan bawb i barhau i gasglu data arolwg drwy gydol y semester cyntaf, gan fanteisio ar ffeiriau gyrfaoedd sydd ar y gweill i gasglu rhagor o ddata gan gyflogwyr. Y bwriad yw cwblhau'r gwaith o gasglu data erbyn mis Ionawr 2025, gyda'r nod o gyhoeddi'r canfyddiadau yn fuan yn 2025. Roedd y digwyddiad yn gam arwyddocaol yn ein hymdrechion cydweithredol i ddeall ac integreiddio priodoleddau graddedigion yn well, gan baratoi'r ffordd ar gyfer cynnydd a chydweithio parhaus.












Bottom ten skills for success in your sector

## Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau prosiect cynhwysfawr oedd â'r nod o archwilio priodoleddau a sgiliau graddedigion. Yn rhan o'r prosiect, defnyddiwyd holiaduron i fyfyrwyr a chyflogwyr, ochr yn ochr â grwpiau ffocws gyda staff academaidd, staff gwasanaethau proffesiynol a myfyrwyr. Roedd y dadansoddiad o ddata demograffig yr holiaduron yn dangos cynrychiolaeth eang ar draws y rhywiau, oedrannau, meysydd academaidd, sefydliadau a sectorau. Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at nifer o feysydd allweddol lle gall prifysgolion wella eu dulliau o baratoi myfyrwyr ar gyfer y gweithlu.

**Y canfyddiadau allweddol:**

1. **Gwahaniaethau rhwng y priodoleddau graddedigion a nodwyd:** Mae'r cyflogwyr a'r myfyrwyr fel ei gilydd yn cydnabod bod priodoleddau graddedigion megis 'Hunan-gyfarwyddo' a 'Dyfeisgarwch' yn bwysig. Ond, mae bylchau sylweddol yn bodoli rhwng y priodoleddau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi fwyaf, megis 'Cydweithio' a 'Chymhwyso'. Mae'r cyflogwyr yn gwerthfawrogi priodoleddau ymarferol megis 'Cymhwyso', 'Cydweithio' a 'Gweithio'n annibynnol', tra bo'r myfyrwyr yn blaenoriaethu mynegiant personol a bod yn gynhwysol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn amlwg hefyd yn eu sylwadau am ddeilliannau addysg: mae'r myfyrwyr yn teimlo bod eu cyrsiau'n eu paratoi nhw ar gyfer 'Herio', 'Gweithio'n annibynnol', 'Cydweithio' a 'Hunan-gyfarwyddo', ond mae'r cyflogwyr yn gweld llai o'r sgiliau hyn mewn graddedigion. Mae'r gwahaniaethau hyn yn tynnu sylw at fwlch rhwng y sgiliau y mae myfyrwyr yn credu eu bod yn eu dysgu a'r rhai y mae cyflogwyr yn eu disgwyl, gan awgrymu bod angen i raglenni addysg gyfateb yn well efallai â gofynion y gweithle.
2. **Gwahaniaethau rhwng y sgiliau a nodwyd:** O'i gymharu â'r cyflogwyr, rhoddodd y myfyrwyr bwysigrwydd llawer uwch i'r sgiliau a pha mor dda mae'r sgiliau hyn yn cael eu datblygu mewn graddedigion. Roedd 'parodrwydd i ddysgu' a 'datrys problemau' yn y tri uchaf o ran pwysigrwydd. Fodd bynnag, rhoddodd y cyflogwyr sgôr llawer is i'r sgìl o 'ddangos parodrwydd i ddysgu mewn graddedigion' na'r sgôr yr oedd myfyrwyr wedi ei roi i faint mae'r sgìl yn cael ei ddatblygu ar eu cyrsiau.
3. **Heriau wrth geisio ymwreiddio priodoleddau graddedigion:** Datgelodd y grwpiau ffocws gyda staff academaidd bod heriau wrth integreiddio priodoleddau graddedigion yn y cwricwlwm, yn arbennig oherwydd y cyfyngiadau ar adnoddau a'r lefelau amrywiol o ymgysylltiad gan fyfyrwyr. Pwysleisiodd y staff bod angen darparu cyfleoedd dysgu drwy brofiad a chyfleoedd mwy strwythuredig i fyfyrwyr ddatblygu'r priodoleddau hyn drwy gael profiadau ymarferol.
4. **Pwysigrwydd profiad ymarferol:** Tynnodd staff gwasanaethau proffesiynol, staff academaidd a myfyrwyr sylw at werth cyfleoedd i gael profiad yn y byd gwaith go iawn, megis interniaethau a lleoliadau gwaith, er mwyn datblygu sgiliau cyflogadwyedd allweddol. Roedd 'cymhwyso' hefyd ymysg y tri phriodoledd graddedigion oedd bwysicaf gan y cyflogwyr ond oedd wedi derbyn sgôr llawer is fel sgìl a welir yn y graddedigion cyfredol. Yn y dadansoddiad thematig o'r sylwadau agored ar yr holiaduron, nodwyd bod profiad ymarferol yn bwysig hefyd ar gyfer datblygu sgiliau graddedigion. Fodd bynnag, mae rhwystrau megis cyfyngiadau ariannol a mynediad cyfyngedig at y cyfleoedd hyn yn gallu rhwystro myfyrwyr rhag cael profiad ymarferol.
